

Neges Dydd Gŵyl Dewi 2022

Rydyn ni, sy'n cynrychioli pobl ifanc Hendygywn ar Daf, yn anfon ein cyfarchion at ein Senedd yng Nghaerdydd ar ddydd Gŵyl Dewi.

Un o'r gerddi yng Nghofeb Hywel Dda yw Gardd yr Holl Goed. Cynrychiolir cyfreithiau cymdeithas gan sawl coeden wahanol. Mae'r rhain yn symbol o'r amrywiaeth sy'n gwneud cymdeithas. Heddiw, gofynnwn i chi fyfyrto nid yn unig ar yr amrywiaethau yn ein cymuned ond yn ogystal ar yr holl bethau sy'n ein huno. Dymunwn weld cymuned, cynefin, cenedl a byd lle mae amrywiaeth o ran diwylliant, iaith, rhyw, rhywioldeb, addysg, oed, crefydd ac ati, yn cael eu derbyn a'u dathlu. Wrth ddatlu ein gwahaniaethau, yn ogystal â'r hyn sy'n gyffredin, gallwn greu cymunedau goddefgar sy'n seiliedig ar barch, dealltwriaeth a chydweithio. Mae ein gweithredoedd fel unigolion yn allweddol er mwyn creu ymdeimlad o berthyn a chymuned.

Mae geiriau Dewi Sant, ein nawddsant ni, yn dal i'n hysbrydoli ni heddiw. Roedd Dewi Sant eisiau i ni 'wneud y pethau bychain'. Gall gweithred unigolyn neu weithred ar lefel cymuned gael effaith byd eang maes o law. O'r fesen, derwen a dyf.



O'r chwith i'r dde: Mrs Pat Price, Mrs Elonwy Phillips, Mr Tony Hughes, Mrs Margarette Hughes, Mrs Val Davies, Mr Ben Taylor, Miss Mary Tooth, Mr Julian Kennedy pennaeth Dyffryn Taf, Mr George Bancroft, Mr Ken Rees, Mr Haydn Lewis, Llywydd Canolfan Hywel Dda, Mrs Ceris Rees, Dr Gabriela Poore, gwirfoddolwr o Abaty Hendy-gwyn ar Cynghorydd Sir, Sue Allen.

Enillydd £500 Raffl Fawr Y Cardi Bach



Llongyfarchiadau i Dion Williams, Cilowen, Logon ar ennill prif wobwr y Clwb 200

WCRAIN

Mae gynnu'n tanio yn ein byd
A phlant yn rhedeg ar y stryd,
Atgasedd gwledydd geir o hyd -,
O Dduw, rho iddynt hedd.

Mae Mam mewn ofn yn wylo, draw,
Ni welir cysur yn y baw,
Mewn rhyfel gas ni cheir ond braw -
O Dduw, rho iddynt hedd.

Wrth gofio am drueiniaid byd
Mewn hiraeth am gartrefi clyd,
Gweddiwn am weld pawb ynghyd -
O Dduw, rho hedd mewn pryd.
N.E.

Y CARDI BACH

Golygydd:

Cadeirydd a Eurfyl Lewis
Dosbarthwr 01994 419495
Is-gadeirydd: Iola Wyn
 07870 100831

Ysgrifennydd: Beti Wyn James
 01994 230966

Trysorydd,
Ffotograffydd,
Dosbarthwr
drwy'r post a Roy Llewellyn
Hysbysebion: 01994 448283

Trysorydd y Rhian White
Clwb '200': 01994 231338

Cysodwyr: Wyn a Meirwen
 Evans
 01994 448447

Cystadleuaeth John Arfon Jones
 01994 240536

Cornel y Albie Abbott
Dysgwyr:: 01239 831641

Tudalen y Plant: Llinos Mair Thomas

Llewyrch i'm Llwybr:

Cornel Ceginio: WinnieJames
 01239 831754

Cornel Llên: Nansi Evans
 01994 448392
 Rhoswen Llewellyn
 01994 448283

Cornel Garddio: John Davies
 01994 240059


Newyddion, Lluniau, Erthyglau
 a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
 yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
 Cwmfelin Mynach, Hendygywyn-ar-
 Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
 o angenrheidrwydd yn
 cytuno ag unrhyw farn a
 gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
 Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Colofn y Mis

gan Iola Wyn, San Cler

Wrth i ni ddod allan o gyfnod tywyll y pandemig, ar ddiwrnod pen-blwydd fy Mam, fe ddechreuodd rhyfel ar ein cyfandir ni yn Ewrop. Ddoe fe wyliais fideo o grwt bach diniwed yn cerdded ar ei ben ei hun yn beichio crio, wrth groesi'r ffin rhwng ei gartref yn Wcráin a'i loches dros dro yng Ngwlad Pwyl. Dyw hi ddim yn glir i ble roedd e'n mynd, a dyw hi ddim yn glir ym mhle mae e nawr. Ond mae'r boen i'w gweld ym mhob cymal o'i gorff. Mae'n wyllo anodd, a dyw geiriau ddim yn medru cyfleu pa mor ddychrynlyd o greulon a barbaraidd yw gweithredoedd un dyn, a oedd yn blentyn ei hun ar un adeg. Wrth i mi ysgrifennu hwn, mae ysbyty plant ac uned famolaeth wedi ei dinistrio, a babanod newydd anedig, plant sal a mamau beichiog o dan y rwbél. Mae plant yn cael eu targedu, ac mae hynny yn gwbwl erchyll.

Wrth wyllo'r crwt bach a groesodd y ffin echdoe, a'i fywyd wedi'i chwalu'n deilchion, ry'n ni'n ymwybodol fod miloedd ar filoedd yn rhagor yn yr un sefyllfa, yn ogystal â phobl bregus ac oedrannus. Ac mae teuluoedd wedi eu chwalu.

Wrth i mi ysgrifennu hwn, mae miliwn o blant wedi ffoi rhag yr ymladd. Ond fydd hi ddim yn bosib ffoi rhag yr hunllefau. Bydd y creithiau yno am byth. Pan ysgrifennodd Gerallt Lloyd Owen am ddawn plentyn i weld llais a chlywed llun, mae'r greddfau naturiol hynny yn llamu i'r meddwl, yr egni, yr angerdd, y diniweidrwydd a'r gallu i weld daioni ym mhopeth. Mae plant Wcráin wedi colli'r cyfan.

Gallwn ond gweddio y bydd y creulondeb annioddefol hwn drosodd cyn gynted ag y bo modd. Mae Cymru'n genedl noddfa. Rwy'n mawr obeithio y bydd modd i ni estyn allan a chynnig lloches a chariad i'r rhai sy'n dioddef ar hyn o bryd.

Yng nghanol yr ymdrechion dyngarol, mae nwyddau lu wedi eu casglu a'u hanfon o'r ardal hon, a miloedd ar filoedd o bunnoedd wedi eu casglu. Ac wrth gwrs, wrth i sancsiynau gael eu cyflwyno i geisio cosbi'r Arlywydd Putin, mae effaith hynny yn amlwg iawn ar garreg ein drws ninnau hefyd, a phrisiau tanwydd ar lefelau eithriadol o uchel. Ond bydded i ni glywed y darlun mawr, a gweld y llais sy'n sgrechian crio, gan wybod mai pris bychan yw hynny i'w dalu, wrth i ni barhau â'n bywydau dyddiol ar strydoedd a ffyrdd heddychlon.

Ond wrth gwrs, mae angen cymorth hefyd ar y rhai yn ein milltir sgwâr, sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi oherwydd y cynnydd aruthrol hwn yng nghostau byw. Ond mae'r ysbryd cymunedol yn fyw ac yn iach ym mro'r Cardi Bach, a'n gallu i ofalu am eraill yn gysur yn y cyfnod cythryblus hwn. Hynny sydd wedi ein cynnal drwy'r pandemig, a bydded i hynny barhau ymhell wedi dyddiau Covid.

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi



Dau gefnder,
 Llew a Llŷr
 Murray yn
 mwynhau
 dathlu Gŵyl
 Dewi

GOHEBWYR LLEOL

<u>ALMA:</u>	Margaret Evans 01994 230761
<u>BANCYFELIN:</u>	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
<u>BLAENWAUN:</u>	Tegwen James 01994 448223
<u>CAPEL MORIAH</u> (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meiniireynon@gmail.com
<u>CEFNYPANT:</u>	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
<u>CLUNDERWEN:</u>	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
<u>CWMBACH:</u>	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
<u>CWM MILES:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>CWMFELIN</u>	Nansi Evans 01994 448392
<u>MYNACH:</u>	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
<u>EFAILWEN:</u>	
<u>GELLIWEN:</u>	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
<u>HENDY-GWYN:</u>	Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.com Y Parch. Guto Llywelyn (Newyddion Tabernacl) 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
<u>HENLLAN -</u> <u>FALLTEG:</u>	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
<u>LOGIN:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>LLANBOIDY:</u>	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwdimwl.com
<u>LLANDYSILIO:</u>	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
<u>LLANGLYDWEN:</u>	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
<u>LLANGYNIN:</u>	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlemail.com
<u>MEIDRIM:</u>	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
<u>PENYBONT:</u> <u>PWLLTRAP:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>RHYDYCEISIAID:</u>	Doreen Adams 01994 240581
<u>RHYDWILYM:</u>	Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
<u>SAN CLER:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>TRELECH:</u>	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

LLEWYRCH I'M LLWYBR*gan Y Parch. Rhodri Glyn Thomas***TROI BEICHIAU YN ASEDAU**

Bu'r Clo Mawr yn gyfnod anodd i lawer ond bu'n gyfle i rai ohonom bwyso a mesur mwy nag un agwedd o'n bywydau. Er na fu'n bosib cynnal oedfaon yn y dull traddadiadol cafwyd cyfle i arbrofi a chanfod cyfryngau newydd a gwahanol i'n galluogi i gyd-addoli.

Buom er peth amser fel cynulleidfaoedd yn Eglwysi Annibynnol San Clêr a'r Cylch yn ystyried beth oedd ein dyfodol. Roedd ein bodolaeth fel eglwysi traddadiadol yn prysur dod i ben, a'n gallu i weithredu wedi ei gyfyngu i bob pwrpas i gadw drws y capel ar agor, a hynny yn mynd yn fwy a mwy o faich. Y cwestiwn roeddem wedi ei osgoi ers cymaint o amser oedd sut y gallem weddnewid beichiau yn asedau i'n galluogi i addoli'n effeithiol ond hefyd i dystiolaethu a chenhadu.

Y BEICHIAU:

Yn eironig byddai yr hyn a ystyrid bellach yn feichiau wedi eu gweld yn asedau gan ein cyndadau. Llwyddasant, yn rhyfeddol i adeiladu y capeli sydd wedi goroesi dros y canrifoedd ac sydd bellach wedi eu cyflwyno i'n gofal ni. Ond mae eu cynnal a'u cadw yn profi'n anodd os nad yn amhosibl.

Roedd cynulleidfaoedd ar y pryd yn tyfu'n gyflym a pharhaodd y duedd honno trwy gydol degawdau cynnar y ganrif ddiwethaf. Nid oedd yn ymarferol cynnal oedfaon mewn tai neu ffermydd, ac felly roedd yn rhaid cael adeiladau pwrpasol ac yna eu ehangu yn ôl y galw. Erbyn hyn maent yn llawer rhy fawr ac yn gwbl anaddas ar gyfer ein hanghenion ni.

Roedd y dull o addoli - emyn, darlleniad, gweddi a phregeth yn ateb y gofynion yn berffaith a'r gynulleidfa yn cael mwynhad a bendith ohono. Erbyn hyn rydym yn byw mewn oes ddigidol ac anghenion yr oedfa a'r gynulleidfa yn dra gwahanol.

ASEDAU:

Yn rhyfedd ddigon mae modd troi'r beichiau hyn yn asedau. Mae gennym lawer gormod o adeiladau a ddim digon o bobl i'w llenwi. Prin iawn yw'r gynulleidfa o ran nifer a hen o ran oedran a hynny'n hollol anghymarus ag adeiladau mawr oer, drafftig a thamp.

Ond gellir gwerthu'r adeiladau hynafol hyn, am bris afresymol o uchel ar hyn o bryd, er mwyn defnyddio'r arian i hyrwyddo gwaith efengylu a chenhadu yn y gymuned. Troi ein golygon tuag allan y hytrach na chanolbwytio ar gadw yr hyn sy gennym. Addasiad cyfoes o ddameg y talentau!

Bydd yr arian sy'n deillio o'r gwerthiant yn caniatáu inni fuddsoddi mewn offer technegol i ganiatau inni addoli ac estyn allan gan ddefnyddio'r offer digidol ddiweddaraf. Dyna'r her sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd ac mae gennym yr adnoddau i'w gyflawni.

Mae rhyddhau yr arian hefyd yn ein galluogi i ymateb yn hael i apeladau argyfyngau ynghyd ag achosion teilwng yn lleol ac yn rhyngwladol.

Yn eironig yr ased mwyaf sydd gennym yw'r dirywiad yn ein cynulleidfaoedd. Tra bod modd rhygnu ymlaen yn dilyn yr un hen drefn, a dyna'r dewis rhwydd a mwyaf cysurus, gwyddom erbyn hyn nad yw hynny'n opsiwn. Dirywio ymhellach fydd ein hanes o wneud hynny ac ar raddfa arswydus o gyflym.

Bu gweledigaeth Undeb yr Annibynwyr yn sefydlu cronfa Buddsoddi ac Arloesi yn gyfrwng ychwanegol inni yng nghylch San Cler i gyflogi Swyddog Cymunedol. Yn ffodus roedd y person delfrydol ar stepen y drws. Gallwn bellach wynebu her y presennol heb boeni'n ormodol am rwystau'r gorffennol.

Mae'r maglau wedi eu torri a ninnau'n rhydd i wasanaethu'r Arglwydd.

CYSTADLEUAETH

gan John Arfon

Rwy'n ysgrifennu hwn ar Fawrth y cyntaf sef Gŵyl ein nawddsant Dewi, a chyda ei neges blyneddol o ewyllys da a heddwch drwy'r byd, mae mor ddigalon meddwl beth sy'n mynd ymlaen yn yr Wcraïn ar hyn o bryd. Mae'n dorcalonnus gwyllo'r holl fenywod a'r plant sydd yn ceisio ffoi o'u gwlad eu hun er ceisio diogelwch o ryw fath. Gallaf i ond edmygu dewrder yr holl ddynion sydd yn ceisio gwrthsefyll gorthrymder Rwsia ac yn ymladd dros eu gwlad. Gallwn ond gweddio drostynt i gyd.

Hoffwn ddiolch o galon i Huw Davies, Glynderi, Pwlltrap am iddo ddychwelyd y £5 a enillodd yn y gystadleuaeth yn ddiweddar. yn ôl i'r Clwb 200.

Dyma atebion posau cystadlaethau Chwefror:-

Croesair Diemwnt

Ar Draws. 2. Coch, 5. Nwy, 6. Bwyta, 9. Ffarm, 10. Edau, 12. Gorau, 14. Côr, 15. Mes

I Lawr. 1. Pont, 3. Chwaer, 4. Tŵr, 6. Bas, 7. Ymgom, 8. Ffau, 11. Dal, 13. Oren

Atebion "O Gam i Gam"

1. Caergybi, 2. Iwan, 3. Newynog, 4. Glas, 5. Synagog, 6. Gwaed, 7. Doctor, 8. Radio, 9. Oriel, 10. Lawnt, 11. Tocyn, 12. Nosi, 13. Ifan, 14. Nerfau, 15. Uchafbwynt, 16. Torf, 17. Ficer, 18. Record, 19. Detholiad, 20. Dyrys, 21. Stordy, 22. Yngan

Y dref yn y blychau llwyd oedd **Caernarfon**

Daeth nifer dda o gynigion i law y tro hyn (18) ac yr oedd hyn yn galondid imi Y cyntaf allan o'r het ac sydd yn ennill y £5 o wobr oedd Meryl Jones, Talog, gyda'r ail wobr o lyfr yn mynd i Shân Griffiths, Abergwaun. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt ac hefyd i'r canlynol am gael yr atebion yn gywir :- Olwen Gibbon, Heol Llysonnen; Eilyr Thomas, Llandysilio; Jane Evans, Tegwen James, Blaenwaun; Bronwen Hicks, Redberth; Rita James, Sally Davies, Phyllis Hughes, Nesta Rees, Pwlltrap; Wendy Thonas, Hevina Jones, John Lewis. Meidrim; Peter Crowdie, San Cler; Joyce Davies, Hermon, Y Glôg; Dorothy Williams, Efailwen; a Gwlithyn Jones, Dryslwyn.

Dyma atebion Cwrosw a Chwilrif Ionawr.

X	X	O	O	X	O
O	O	X	X	O	X
O	O	X	X	O	X
X	X	O	O	X	O
O	X	X	O	X	O
X	O	O	X	O	X

6	4	3	9	1	2	5	7	8
9	1	7	5	8	4	3	6	2
5	2	8	3	6	7	9	4	1
4	8	6	2	3	1	7	5	9
2	7	1	6	9	5	8	3	4
3	5	9	4	7	8	1	2	6
8	9	2	7	4	3	6	1	5
7	6	4	1	5	9	2	8	3
1	3	5	8	2	6	4	9	7

Dyma ddau bôc i'ch difyrru y mis hwn.

X	O			O	
X					
	X				
			O		
X			O		
	O				

	4	3						
	6		2	9			5	
			8					
					6			1
6			9		7		2	8
4	2							
			7			8		6
9	1				4	5		
2				8		1		

Rwy'n siwr fod y mwyafrif ohonoch yn cofio y rhaglen Countdown a oedd ar BBC 2 flynyddoedd yn ôl. Mae'r rhaglen yn dal i gael ei darlledu ond yn awr yn y prynhawn ar Sianel 4. Dyna yw'r gystadleuaeth y mis hwn, ac mae dros ugain mlynedd wedi mynd heibio ers pan rois un debyg ichwi o'r blaen. Rwyf am gynnig fersiwn Cymraeg o Countdown a'i galw yn "Swm a Gair"

Mae'r rheolau y dylech eu dilyn yn Gymraeg ychydig yn wahanol i'r rhai Saesneg, felly cymerwch sylw mawr ohonynt.

Mae deg rownd i gyd fel y gwelwch isod. Mae chwech ohonynt yn gofyn ichwi greu geiriau Cymraeg o'r llythrennau a roddir (mae'n rhaid iddynt fod yn y Geiriadur Mawr ac ni chewch ddefnyddio geiriau priodol. Yna mae tair rownd o ddefnyddio y rhifau a roddir (neu rai ohonynt) gyda +, -, x a ÷, i wneud neu ddod cyn agosod â phosib i'r rhif sydd ei eisiau. Y rownd olaf yw'r conwdrwm (penbleth) i weithio yr anagram o'r naw llythyren a roddir.

Yn ôl y rheolau, cofiwch mai ond unwaith yn unig y cewch ddefnyddio y llythrennau a'r rhifau i roi ateb ichwi (os nad oes rhai yn ymddangos mwy nag unwaith yn y pôs).

Bydd pwynt am bob llythyren a geir yn y geiriau y byddwch yn eu creu (ac os cewch air o 9 llythyren bydd hyn yn dyblu'r pwyntiau i 18.) Mae deg pwynt ar gael os cewch y rhif yn gywir neu 7 pwynt os byddwch o fewn 5 iddo a phum pwynt os byddwch o fewn deg iddo. Yna mae deg pwynt i'w gael am ddatrys y conwdrwm yn gywir.

Gyda llaw bydd un rheol ychwanegol yn y Gymraeg, e.e. os byddai T a H (neu C a H neu F a f ac yn y blaen ar wahan yn y llythrennau a roddir gallwch wneud Th neu Ch ac yn y blaen a'u rhoi mewn gair. Felly, e.e. os byddai gennych y llythrennau D, W, T, I, E, R, H, G, E gallech wneud y gair GWEITHRED, ond dim ond 8 pwynt a gaech am hwn er eich bod wedi defnyddio y naw llythyren. Mae'r fersiwn newydd o'r gêm yn awr yn cynnwys mwy o rowndiau ond teimlaf fod deg rownd yn hen ddigon i weithio'r ymenydd. Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y rhaglen deledu a'r pôs hwn yw fod gennych oriau a dyddiau i weithio allan eich atebion gorau ac nid 30 eiliad fel y cewch yn Countdown.

Eich targed yw cael y sgôr uchaf bosibl.

Rownd 1

S G P O L I N Y R W

Rownd 2

D H Y N W M U E A

Rownd 3

4 1 6 2 7 75 = 439

Rownd 4

E N R I I S C O E

Rownd 5

B R I W G E R A N

Rownd 6

5 9 8 10 50 100 = 875

Rownd 7

U I D S A R I C A

Rownd 8

C Ch L I G R D A O

Rownd 9

7 10 8 4 50 25 = 718

Rownd 10

D I W E G N G O I

Y Conwdrwm

Cynigir gwobr o £5 i'r cyntaf gyda'r mwyaf o bwyntiau a llyfr i'r ail.

Anfonwch eich atebion gyda'ch enw, cyfeiriad a'ch rhif ffôn erbyn Mai 1af 2022 i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn ar Daf, SA34 0AX os gwelwch yn dda. Cofiwch fod yn rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 os am y siawns o ennill un o'r gwobrau. Cofiwch hefyd y dylech wneud yn siwr eich bod yn ymaelodi cyn gynted â phosibl os am y siawns o ennill un o'r gwobrau.

Cyfraniadau

Haulwen Lewis, Cefny pant	£10
Peter a Menna Lewis, Dinbych y Pysgod	£10
Joyce Phillips, Maesygrove	£5

Diolch yn fawr


DAVID HARRIES & Co



**CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD**

Westgate, West Street
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.



**"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"**

PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH



01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR

Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb

- Gwasanaeth plymio llawn
- Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
- Gwasanaeth teilio llawn
- Dyfynbris am ddim
- 25 mlynedd o brofiad

07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk



Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarlennwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel.
Diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi
â'r Clwb 200 a llongyfarchiadau i holl enillwyr y Raffl
Fawr. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ar 'Zoom' eleni
eto a hoffwn ddiolch i bawb am eu cymorth i wneud y
broses yn un hwylus a llwyddiannus.
Bydd rhestr o holl aelodau'r Clwb yn ymddangos yn
rhifyn mis Ebrill o'r Cardi Bach.

Dyma restr o enillwyr y Raffl Fawr:-

£500

Dion Williams, Cilowen, Login.

£300

Telyn-Haf Thomas, 18 Cae Gwyrdd, San Clêr.

£200

Edith Ridley, 1 Caerwenog, Trelech.

£100

Siop Sian, Crymch.

William Beards D/O 13 Rhyd-y-Gors, San Clêr.

£75

Leia Jenkins, D/O Glantaf House, San Clêr.

Elaine Llewellyn, Tŷ Uchaf, Llandysilio.

Jones Motors, Login.

Riverlea, Hen Dŷ Gwyn.

£50

Ceginau Clasurol, Hen Dŷ Gwyn.

Eleri Roberts, Nant yr Eira, Commis Coch.

Bethan Davies, Derlwyn Taf, Backe, San Clêr.

Dawn Davies, Walford Road, Rhosan ar Wy.

WD a A Evans, 52 Heol Tŷ Draw, Parc y Rhath, Caerdydd.

Dr. Bronwen Evans, Gwynfaes, Meidrim.

Eleri Thomas a'r teulu, 2 Burlington Terrace, Caerdydd.

£40

Angela Marie, Yr Hen Swyddfa Bost, Trelech.

G & S Llewellyn a'u mab, Fferm Penycwm, Llandysilio.

Young Brothers, The Ashes, Llandysilio.

Mali Efa Kay, 29 Heol Llwyn-y-Grant, Penylan, Caerdydd.

Oliver a Phoebe Lewis, 4 Cavendish Close, Saltford, Bryste.

Liz Llewellyn, Dôl Awel, Efailwen.

Rhian Pugh, Ffynnonlas Uchaf, Blaenwaun.

John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn.

Winnie James Phillips, Gwel y Frenni, Crymch.

Huw Jones, Dorset House, Hen Dŷ Gwyn.

£30

Taliesin Scott Robinson, Caeredin.

Siân Davies, Kings, Boncath.

Margaret Titterton, 31 Rocky Park, Penfro.

Huw Thomas a'i Fab, Bryngwellty, Cwmfelin Boeth.

Doreen Brown, Maeshyfyd, Gerddi'r Ffynnon, Hen Dŷ Gwyn.

Jean Griffiths, Springhill, Llandysilio.

Janet Wheeler, Clyngwyn, Efailwen.

Martin Lloyd, Argoed, Cilgerran.

Adeiladwyr Taf, Heol yr Orsaf, San Clêr.

Freddie Robertshaw, 85 Woodfield Road, Princes Risborough.

Eifion a Violet Griffiths, Brynsiriol, Llanboidy.

£25

Hilary Evans, Gwarwenallt, Bancyfelin.

Reptile Tiles, Gwaith Menyn, Llanglydwen.

Heulwen Evans, Swn yr Afon, Llanglydwen.

Eleri Jones, 14a Clos Nathaniel, Pwll-Trap.

Eryl Rosser, West Regwm, Hen Dŷ Gwyn.

Elizabeth White, 8 Gerddi Trefychan, Hen Dŷ Gwyn.

Roy Reynolds, Tymore, Llangynin.

Gwilym Lawrence, 41 Bevelin Hall, Saundersfoot.

Brian ac Eirwen Davies, 8 Parc Llwynceilyn, Pwll-Trap.

£20

Jac a Josh Lewis, 4 Maesolbri, Llanybri.

Agnes Evans, Maes yr Ysgol, Peniel.

Hafwen John, Y Preseli, Y Bala.

Bysiau Cwm Taf, Hen Dŷ Gwyn.

Aelodaeth Rad

Nia Haf Lewis, Bro Beca, Efailwen.

William Rees, 9 Heol Innes, Felinfoel, Llanelli.

Beryl Griffiths D/O Cilhaul, Hen Dŷ Gwyn.

Lona Tomos, Pantyrsgol, Hermon, Y Glôg.

Yswiriant Cleddau, Heol yr Orsaf, San Clêr.

Vivian a Beryl Williams, Llysifor, Hebron.

Wyn Davies, Fferm Blaenwaun, Hebron.

Megan Adams, D/O Llinalaw, Hen Dŷ Gwyn.

Iwan a Meinir Jenkins, Fferm Rhosfach, Efailwen.

Delyth Jones, Treto Isaf, Trelech.

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,

Rhian

WYN DAVIES a'i FRODYR

ADEILADWYR

Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn: 01437 563300



IFAN DAVIES

Saer Coed




Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469

W. J. KENNETH DAVIES

ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED

a

THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen

Ffôn: 01437 563319




CORNEL Y DYSGWYR

gan Albie Abbot

Dyma rywbeth i chi ar gyfer mis Mawrth. Mae'n braf gweld bod y Gwanwyn gyda ni nawr, gyda'r eirlysiau, cwte oen bach, a'r cennin pedr yn dechrau blodeuo yn ein gardd ni.

Pob lwc, Albie

Saunders Lewis (1893 – 1985)

Cafodd Saunders Lewis ei eni yn Wallasey, Cilgwri, Lloegr, yn fab i weinidog ar gapel Cymraeg yn yr ardal. Roedd gwreiddiau teulu ei fam yn Sir Fôn. Buodd e'n fyfyrwr ym Mhrifysgol Lerpwl, cyn gwasanaethu fel swyddog gyda'r 'South Welsh Borderers' yn ystod y Rhyfel Byd Cynta. Ar ôl y rhyfel, symudodd ei deulu i Abertawe, a chafodd e swydd yn Adran Gymraeg y coleg newydd a agorwyd yn y dre yn 1920. Yn 1926, roedd e'n un o'r rhai a sefydlodd y Blaid Genedlaethol, neu Blaid Cymru fel y mae'n cael ei nabod heddiw. Yn 1937, cafodd ei ddedfrydu i naw mis yng Ngharchar Wormwood Scrubbs gyda dau aelod arall o'r Blaid am losgi'r Ysgol Fomio ym Mhenyberth. Ychydig o amser cyn hyn, roedd e wedi troi'n Babydd, a threuliodd e'r blynyddoedd nesa fel athro mewn Ysgol Gatholig breifat yn Aberystwyth cyn dod yn Aelod o staff Prifysgol Cymru, Caerdydd, fel darlithydd yn yr Adran Gymraeg.

Saunders Lewis a ysgrifennodd y ddarlith 'Tynged yr Iaith' ddarlledwyd gan y BBC yn 1962, ac a arweiniodd at sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yr un flwyddyn.

GEIRFA

Cilgwri	The Wirral
Sefydlu	To establish
Dedfrydu	to sentence
Pabydd	Catholic (Pabyddion (<i>llu</i>))
Dramodydd	Playwright (dramodwyr (<i>llu</i>))

1. Ble cafodd Sanders Lewis ei eni?
2. Beth oedd gwaith ei dad?
3. O ba ran o Gymru roedd ei rieni'n dod?
4. Ym mha brifysgol buodd e'n fyfyrwr?
5. Beth wnaeth e ar ôl y Rhyfel Byd Cynta?
6. Pryd agorwyd Coleg Prifysgol Abertawe?
7. Beth ddigwyddodd yn 1926?
8. Ble aeth e ym 1937?
9. Pam?
10. Ble roedd yr ysgol fomio ?
11. Fel beth arall daeth Saunders Lewis yn enwog?

COLOFN LLEN

Llyfrau - PRAWF MOT

gan Bethan Gwanas



Nofel wahanol i'r arfer - dylai'r llyfr hwn apelio at bobl sy'n hoffi cwn. Mae'r stori'n sôn am MOT sy'n gi arbennig ac yn meddwl y byd o'i berchennog, Lea.

Mot sy'n siarad ac yn creu'r hanesion am ei ofal o Lea ac yn meddwl bod ei dewis o ddynion yn ofnadwy.

Mae Mot yn penderfynu mai ef yw'r un i'w helpu i ddod o hyd i ddyn call ac i gael gwared o'r rhai sydd ddim yn ei blesio!

Dyma nofel ysgafn am gariad, ffyddlondeb ac heneiddio.

Mae Bethan Gwanas yn awdures boblogaidd ac wedi ymdrin â nifer o bynciau gwahanol.

PRAWF MOT: Gwasg Y Bwthyn.
Pris £9.95

Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith conrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio

Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎ 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorrlewin
Hendygywyn ar Daf



Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937

MERCHED Y WAWR

Cangen Hendygwyn

Hazel Thomas, Swyddog Datblygu a Hyrwyddo Cangenau Penfro a Cheredigion oedd gwraig wadd ein cyfarfod ar Chwefror 15fed, yng Nghanolfan Hywel Dda ac yn gwmni iddi fe ddaeth Jane Morgan, sy'n swyddog yn Sir Gaerfyrddin. Fe'u croesawyd hwy yn gynnes gan Cerrys Rees ar ran y gangen. Ymd-diheurodd am absenoldeb Jean Parri Roberts oedd yn hunan ynysu, a Margarette Hughes oedd newydd dderbyn triniaeth law-feddygol. Braf oedd gweld aelod newydd arall yn ein plith, sef Carol Young o Landysilio. Gan ddefnyddio sleidiau, rhoddodd Hazel ddarlun bywiog iawn o'i bywyd i ni – 'O Drefach i'r Dorchester'. Soniodd am bwysigrwydd ei hardal enedigol a'r bobl a ddylanwadodd arni; am ei haddysg yn Ysgol Ramadeg Llanbed ac yng Ngholeg y Cogyddion yn Westminster a arweiniodd at ei swydd fel cogydd yn y Dorchester. Oddi yno bu'n rhedeg gwesty moethus yn St. Ives lle enillodd ddigon o arian i brynu car Spitfire. Yn anfodus, cafodd ddamwain ddifrifol yn y car ac fe ddychwelodd i'w chartre ym Mhenbompren, Drefach.

Yno, cwrddodd â'i gŵr oedd â siop trin gwallt. Fe ddysgodd hithau'r dechneg ac agorodd ddwy siop yn Llanbed.

Erbyn hyn, mae'n ymwneud â hybu bwydydd Cymreig mewn sioeau ac mae'n awyddus iawn i ddenu diddordeb plant a phobl ifanc mewn bwyta'n iach a choginio; ynghyd â'i gwaith dros Ferched y Wawr wrth gwrs. Beth ddaw nesa? Pwy a wyr, medde hi! Diolchodd Cerrys iddi am ei chyfraniad bywiog, llawn hiwmor ac roedd yn amlwg bod pawb wedi cael prynhawn wrth eu bodd yn ei chwmni.

Wrth fwynhau sgwrs a disgled a baratowyd gan Ann Glanville a Pat Price, cyhoeddodd Ann y newyddion da bod George Bancroft wedi trosglwyddo siec am £200 i'r gangen fel rhan o'r arian a gasglwyd er cof am Sheila a fu'n aelod mor annwyl a ffyddlon dros y blynyddoedd.

Diolch yn fawr iddo am ei haelionu.

Bydd ein cyfarfod nesa' ar Fawrth 15fed am 1.30 pan fyddwn yn cael cawl i ddatlu Dydd Gŵyl Dewi.



Cafodd Cangen Hendygwyn ar Daf brynhawn hyfryd iawn yng nghwmni Hazel Thomas yn rhoi ei hanes o "Drefach i'r Dorchester".

Cangen San Cler

Cyfarfu'r Gangen yn Yr Hen Ysgol ar nos Fawrth, Chwefror 15eg. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Annalyn.

Diolchwyd i Margaret a Rhian am addurno'r goeden i Wyl Goed Nadolig yr Eglwys ar ran y Gangen. Roedd yn edrych yn hyfryd.

Gwnaeth Eileen nifer o flodau hyfryd sydd wedi mynd i'r Swyddfa yn Aberystwyth i'w defnyddio yn yr arddangosfa yn Eisteddfod Ceredigion.

Mae nifer o weithgareddau wedi eu cynnal ar Zoom gyda'r aelodau wedi cael blas ar sawl un, y noson gyda Dr. Elin Jones yn siarad am "Ferched Cymru a'r Iaith" yn arbennig iawn. Diolchwyd i Iona am ei holl waith yn rhannu'r wybodaeth am y rhain.

Roedd darn Beti-Wyn ar "Fy Hoff Lyfr" wedi ymddangos ar dudalen Gweplyfr y Mudiad.

Croesawyd y siaradwraig wadd, sef Mary Thorley o Gaerfyrddin, a fu'n sôn am hanes ei chyn-deidiau o ardal San Cler. Cafwyd noson ddifyr iawn yn clywed yr hanes, olrhain hanes lliwgar ei hen-dadcu, Rice Price Beynon, a fu'n byw yn Spring Gardens, Pwll Trap ac a fu'n ymwneud â Merched Beca. Mae dirgelwch ynghylch beth yn union oedd ei rôl yno ond tybir efallai mai e oedd un o'r trefnwyr tu ôl i'r protestiadau. Magodd deulu mawr a roedd ganddo gysylltiadau â nifer o ffermydd yn yr ardal yn ogystal â Phlas Trewern, Hendygwyn.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED

Plymio a Gwresogi

07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i GWMNI

SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen

Ffôn: 01437 563217

Diolchodd Beti-Wyn i Mary am noson hynod o ddiddorol ac roedd pawb wedi mwynhau. Enillwyd y wobwr raffl gan Margaret Rees.

Cafwyd cwpaned o de, cacennau a sgons blasus a diolchodd Annalyn i Sue o'r Hen Ysgol am ddarparu'r man cyfarfod a'r lluniaeth.

Cangen Gronw

Ar brynhawn heulog ddiwedd mis Chwefror, daeth aelodau o Gangen Gronw at eu gilydd yng Nghaffi Beca i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Llywyddwyd gan Valerie Davies.

Cyn mwynhau'r cawl blasus, yn ein meddyliau roedd tair aelod o'r gangen nad oedd yn medru bod gyda ni, Nansi, Rhoswen ac Irene. Dymunwn yn dda iddyn nhw.

Derbyniwyd ymddiheuriad wrth Meinir Eynon am ei habsenoldeb.

Yn ein meddyliau hefyd roedd pobl yr Wcrain. Dyma ddiwrnod cyntaf ymosodiad diweddaraf Rwsia ar y wlad hon. Priodol oedd hi felly i ystyried, am rai eiliadau, yr hyn oedd yn eu wynebu. Tra roeddem ni'n eistedd lawr i fwynhau ein dathliad yng nghwmni ein gilydd mewn heddwch, roedden nhw'n wynebu rhyfel. Gobeithio'r gorau oedd ein neges, ond nid oeddem wedi dychmygu y byddai pobol yr Wcrain yn dioddef y fath erchyllterau, fel y gwelwn yn ddyddiol ar y teledu. Ond yn ddyddiol hefyd, gwelwn ddewrder a dycnwch y bobl, ynghyd â chyd-weithio a charedigrwydd eu cymdogion yng ngwledydd dwyrain Ewrop wrth iddyn nhw gynnig lloches a diogelwch i'r rheini sy'n ffoi.

Neges Dewi Sant, fel y mae wedi ei eirio yn llyfr Alun Ifans, yw:

"Rydw i eisiau i chi fyw'n hapus gyda'ch gilydd a pheidio â chweryla. Hefyd gwnewch y pethau bychan i helpu eich gilydd." Am wirionedd oesol.

Diolchodd Valerie i Robert a'r staff am baratoi pryd blasus ar ein cyfer. Mor ffodus ym yn medru mwynhau cwmni ein gilydd mewn heddwch.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Fawrth 31ain yn festri Ramoth am 1.30 o'r gloch pan fyddwn yn trefnu rhaglen blwyddyn nesaf.

Clwb Gwawr Merched Hywel

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yng Nghlwb Rygbi Hendygywyn ar Nos Fercher 16eg, pan groesawyd Hazel o Lanfyrnach i wneud dawnsio llinell gyda ni.

Cafodd pawb llawer o sbort a sbri yn dawnsio fel y gwelwch yn y llun! Roedd ambell aelod yn mynegi eu bod wedi colli cwpwl o "bowndi" yn ystod y noson!!

Diolch i Diane Jones a Nia Davies am drefnu'r noson.

Ar gyfer ein cyfarfod nesa, mae criw ohonom yn mynd i Ganolfan y Mileniwm, Caerdydd i weld y gomedi gerddorol newydd Anthem. Mae Gwydion Rhys yn rhan o'r cynhyrchiad, felly mae'n argoeli i fod yn sioe dda. Diolch i Sarah Hendre am drefnu ac archebu tocynnau.



Yr aelodau yn dawnsio llinell

Cangen Beca

Prynhawn Iau, 10fed o Fawrth, gwnaethom gyfarfod i ddathlu Dydd ein Nawddsant Dewi gyda chawl yng Nghaffi Beca.

I ddechrau'r cyfarfod, trafodwyd rhai o faterion y mudiad. Yna, croesawodd Eryl George ein Llywydd, y chwaer Winnie James Phillips atom.

Ar ôl bwyta, gwnaethom fwynhau gwrando ar Winnie yn dweud ei hanes, o amser ei phlentynod yn yr ardal, hyd at nawr.

Hanes diddorol a llawn hwyl. Dyma oedd i ddisgwyl gan Winnie. Roedd Winnie hefyd wedi paratoi cwis byr ar ein cyfer.

Diolch i Winnie am ein diddanu, ac i Robert am y bwyd blasus yn ôl ei arfer. Pawb wedi mwynhau y prynhawn.

Jill Beynon wnaeth ennill y Raffl Misol.

Preseli storage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Efelldre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com



Detholiad o anrhegion
Cymraeg a Saesneg
o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
E-bost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawncariad
www.llawncariad.co.uk

Cornel Garddio

gan W John Davies, Hendygywyn

Mae heddiw yn 8fed o fis Mawrth, a mae'n aeafol dros ben â'r glaw oer yn bygwth. Daeth y mis mewn yn weddol dawel a mwyn yn dilyn Chwerfor gwlyb iawn a mae hyn oll yn darogan i mi fod yn bosib i ni gael tipyn o dywydd gaeafol eto. Daw hyn cyn i ni gael tywydd ffafriol er mwyn dechrau garddio trwy hau hadau mân allan yn yr ardd. Er hynny, mae tymeredd y pridd wedi bod yn weddol uchel, felly mae blodau cyntaf y flwyddyn, sef y lili wen fach, a'r briallu wedi bod yn odidog. Nesaf, pan fyddant yn dechrau gwiwo dyma'r amser gore i'w codi tra eu bod yn dal yn wyrdd a'u hollti, a'i hail blannu rhyw hanner dwsin gyda'u gilydd. Os ydynt lawer rhy agos ac yn dechrau gwanhau, plannwch, hwy os yn bosib yn lleoedd cefn haul i gael y gorau allan ohonynt y flwyddyn nesaf. Wedi gwneud hyn mae'n bwysig eu dyfrhau yn dda ac ychwanegwch llawn llwy de o 'Epsom Salts' wedi eu doddi i bob galwyn o ddŵr i'w helpu i ail gydio.

Mae mis Mawrth yn ddelfrydol i blannu hadau mewn bocsys neu potiau bychan ar silff ffenest y gegin ac yna eu hail blannu allan ym mis Ebrill. Mae'n bwysig cofio mae nifer fach o hadau sydd eisiau os gwnewch chi hyn, felly byddwch yn ofalus a'i trin yn dyner wrth eu hail blannu. Rwy'n edrych mlaen i blannu shalots a winws yn fuan, a byddaf yn crafu twll bychan i bob un, a'u plannu, er mwyn osgoi caledi'r pridd oddi tanynt. Mae hyn yn fil gwell na'u gwthio i mewn i'r pridd, oherwydd wrth, wneud hyn mae'r pridd o danynt yn caledi. Yna, mae'r gwreiddiau newydd yn eu gwthio i fynnu i'r wyneb lle mae'r Jac y Do's yn siwr o'u tynnu i fyny peth cyntaf yn y bore. Maent i weld yn joio gwneud hyn, er nad ydynt i weld yn eu bwyta.

Mae'n ddantlyd os nad yw'r moron ar betys yn blaguro a tyfu'n weddol. I rhoi help llaw iddynt gwasgarwch llawn dwrn o halen i bob llathed sgwar, yna dyfrhewch â dŵr a "Epsom Salts" ynddo i'w olchi mewn i'r pridd - mae dŵr y môr yn well os yw yn gyfleus! Gwnewch hyn rhai diwrnodau cyn hau'r hadau ac os gwelwch welliant, mae hyn yn dangos fod y 'trace elements' naturiol yn eich gardd yn gwanhau. Fe wnaif ganol-bwyntio ar y cyflwr hyn nes ymlaen eleni ac yn y cyfamser, gofynnwch i'r lawnt a yw hi'n yn hapus! Chwistrellwch lathed fan hyn

a fan draw, eto â "Epsom salts" ac os na welwch welliant, mae popeth yn iawn. Mae'r gwendid hyn yn bosib ar ôl gor ddefnyddio "lawn weed and feed" neu defnyddio gormod o wrtaith.

Os yn hau hadau bychan mewn potiau neu focsys, rhwch hwy i sefyll mewn modfedd o ddŵr clêr i'w dyfrhau. Codwch nhw allan pan fydd y pridd i'w weld yn llaith ar y wyneb - mae hyn fil gwell na dyfrhau dros yr wyneb yn unig.



Cynhwysion

- 1 winwsin
- 1 afal coginio
- 1½ owns o fenyn
- 1½ owns o fflŵr
- 2 llwy bwdin o bowdwr cyri
- 1 peint o stoc
- ¾ pwys o gig eidion wedi ei goginio a'i dorri'n fân
- 1 llwy fwrdd o 'chutney'
- 2 domato (heb groen)

DULL

Pilio a thorri'r afal a'r winwsyn
Coginio mewn padell ffrio am 5 munud.
Ychwanegu'r powdwr cyri a'r fflŵr a'u coginio am
2 - 3 munud arall
Rhoi'r stoc a throi'r cyfan nes ei fod yn tewhau.
Ychwanegu'r cynhwysion eraill (ar wahan i'r cig) a mud-ferwi am
tua 30 munud
Rhoi'r cig i mewn a choginio'n araf am 10-15 munud arall.
Gweinwch gyda reis.

Cwstard Wyau

3 ŵy - Curwch yn dda
Arllwyswch i mewn i ddysgl ac ychwanegu peint o laeth.
1½ owns o siwgar a'i gymysgu.
Trowch i mewn i ddysgl bwdin

Coginiwch mewn gwres ISEL am tua awr; fe fydd y cwstard wedi setio.

(Mae hwn yn bwdin maethlon i blant neu rhywun sy'n anhwylyd).



COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygywyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk



Ysgubor
Bryncaerau
Llety clyd
Sanclêr
07870
100831



CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444



Iâr fach bert ...

★ CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae Lilwen a Dilwen wrth eu bodd yn canu tra'n gweithio ...

♪ ♪ ♪ Iâr fach bert yw iâr fach ni – ♪ ♪ ♪
coch a melyn a gwyn a du ...

Fedrwch chi ddyfalu faint o wyau Pasg sydd gan
bob iâr fach bert?



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 8/4/22

Heledd Mair Williams o Fryn Iwan yw enillydd Cystadleuaeth Mis Chwefror.
Ateb Cystadleuaeth Mis Chwefror: Cymru oedd y gair arbennig.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer. www.wenfro.cymru

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2022



Bydd enw enillydd y
gystadleuaeth yn cael ei
gyhoeddi yn y rhifyn nesaf.

LLANWINIO

Priodas Aur



Llongyfarchiadau mawr i Clint a Judith Henry, Danygaer, Llanwinio ar ddathlu eu Priodas Aur ar 8fed Ebrill, Cariad mawr wrth Catrin, Aled a'r teulu cyfan.

Mai

1af 1.30yp - Oedfa dan ofal Parchedig Garth Ioan
15fed 2.00yp - Cymun dan ofal Nigel Davies

Pob dymuniad da i Jane Evans, Pen Ddôl, fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 86 oed ar yr 21ain Fawrth. Pob dymuniad da wrth yr aelodau ac iechyd da i'r dyfodol.

Diolch. Dymuna Joyce Phillips, Maesygrove, Blaenwau ddiolch i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion ar ei phenblwydd yn 60 oed ar Chwefror 10fed.

MEIDRIM

Henoed

Buom yn dathlu ein Dydd Gŵyl Dewi yn Neuadd Ieuenctid Meidrim. Daeth 29 ohonom at ein gilydd i fwynhau cawl bendigedig a baratowyd gan Christine James. Nid yn unig y cawl oedd yn flasus, ond hefyd y danteithion eraill pwrpasol a gafwyd ar gyfer dydd ein Nawddsant.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Ieuenctid Meidrim ar Ebrill 5ed pan fydd Gwawr Lewis, gynt o Neuadd yn siarad â ni.

Wrth y te - Lilian Rees, Jean Howell, Emrys Morgan, Shirley Bowen.

Yn rhoi raffl - Glen Lewis, Sally James, Danny Newton, Jennifer Price.

LOGIN

Calfaria

Oedfaon

Diolch o galon i Mrs Annalyn Davies am ei gwasanaeth ar Mawrth 6ed, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Ebrill

3ydd - Hefin Wyn - Cymun 2 o'r gloch

17eg - Euros Jones Evans - Bedydd a Chymun 10.30

Mai

1af - Lyndon Lloyd - Cymun 10.30 o'r gloch

15fed - Tom Defis - 2.00

29ain - Aled Gwyn - Oedfa Goffa Parchedig Vincent Evans - 10.30 o'r gloch

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Jennifer a Gaynor a'u teuluoedd ar farwolaeth mam, mamgu a hen famgu

GELLYWEN

Ainon. Newyddion braf a ddaeth i'n bro, a daeth eto haul ar fryn ac felly byddwn yn cynnal yr oedfa gyntaf yn Ainon ers dwy flynedd ar Ebrill 10ed am 10.30 y.b. pan y disgwylir y chwaer Catherine Davies i'n arwain yn ein haddoliad.

Diolch hefyd i bawb a ddaeth i dacluso a glanhau yr adeiladau ar ôl misoedd o lonydd i'r clêr a'r corynnod ymgartrefu mewn tawelwch yn y dwst. Braff gweld pob peth yn ôl yn edrych ar ei orau.

BLAENWAUN

Moriah

Diolch i'r gweinidog y Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth ar Sul, Mawrth 6ed.

Disgwylir Elonwy Phillips i'n gwasanaethu mewn oedfa ar Sul, 20fed am 2 o'r gloch.

Trefn yr oedfaon
Ebrill

3ydd 10.30yb - Oedfa dan ofal Parchedig Gareth Ioan

17eg 3.00yp - Oedfa Gymun Pasg dan ofal Parchedig Gareth Ioan.

CJ Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com



Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James

J. K. Lewis a'i Fab

Glandy Cross

SPAR



Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen amoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul, 7y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard
San Clêr

Ffôn: (01994) 231390



annwyl iawn iddynt, sef Betty Cato (Betty Llysmayrdin gynt) yn ddiweddar. Cydymdeimlwn hefyd gyda'i brodyr a'i chwiorydd sef Rhys a Russell Thomas, Bethan Allen a Delyth Thomas.

Cefnogi Wcrain

Mae'r sefyllfa yn yr Wcrain yn hollol dorcalonnus ac yn gwaethgu'n ddyddiol. Gweddiwn daw'r rhyfel i ben yn fuan a bydd modd i drigolion y wlad, sydd wedi cael eu gorfodi i ffoi am eu bywydau, ddychwelyd adref. Rydym fel eglwys wedi anfon swm o £200 tuag at yr apêl ac hyderwn bydd llawer o eglwysi, cymdeithasau, mudia-dau ac unigolion yn gweld yn dda i gefnogi hefyd. Heb os, dyma argyfwng ddyngarol mwyaf erchyll a gwaethaf ein hoes. Mae'n anodd amgyffred a deall sut gall pen-derfyniad a gweithredu ffaidd unben fel Putin, gael gymaint o effaith ar fywydau gymaint o bobol.

Priodas Ddiemwnt



Pob dymuniad da i Graham a Sally James, gynt o Fferm Westmead Pentywyn, (Sally Fferm Ffynnonwen gynt) sydd yn dathlu carreg filltir arben-nig, priodas ddeiamwnt ar

24ain Mawrth. Oddi wrth Antony a Sue, Sarah a Rhoswen, Helen, Raoul, Cerys, Eleri a Delyth, Rhys a Max

Penblwydd Hapus yn 90 oed



Penblwydd hapus i Mary Llewelyn (gynt o Pendre, Login) a fydd yn 90 oed ar 24ain o Ebrill, wrth y teulu i gyd.

Llongyfarchiadau i Mererid Davies, Golwg y Cwm ar ei dyweddiad gyda Michael Williams. Pob dymuniad da a hapusrwydd i'r ddau i'r dyfodol oddi wrth y teulu i gyd.

CWM MILES

Capel

Bwriedir ail agor y capel ar ôl y clo ar Sul, 3ydd Ebrill am 2 o'r gloch pan bydd oedfa gymun o dan ofal y Parchedig Euros Jones Evans. Mawr yw'r edrych ymlaen.

Cynhelir oedfa mis Mai ar Sul, 22ain am 2 o'r gloch pan disgwylir Elonwy Phillips i wasanaethu mewn oedfa Gymun.

Cylch Meithrin Ffynnonwen



Plant y Cylch yn dathlu Gŵyl Dewi

Mae angen cofrestru gan fod rhestr aros i ymuno. Mae'r Cylch yn agor drwy'r dydd am 4 diwrnod.

Llun- 8.15-12.45 / Ti a Fi 1-2.30

Mawrth i Gwener 8.15-3.30

PENYBONT - C.Ff.I.

Llongyfarchia-dau mawr i Celyn Richards ar gael ei dewis yn Aelod Iau y flwyddyn C.Ff.I Sir Gar. Bydd Celyn yn llysgennad ar gyfer y flwyddyn 2022, ac mae pawb yn C.Ff.I Penybont yn dymuno'n dda iddi.



Rhys Jones
Glanhauwr Simnai

Glanhau Simneiau • Cynnal a Chadw
Arolygiad Teledu Cylch Cyfyng
Tynnu nythod adar • Gwiriadau diogelwch
Gosod larymau Carbon Monocsid
Gwasanaethu/atgyweirio stoffiau a lleoedd tân
Yswiriant a chymhwysiaid llawn

☎ 07554 647544
www.rhysjoneschimneysweeping.co.uk

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin

Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy

Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen

GWASANAETH DOSBARTHU
AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
Clunderwen. SA66 7NP

RHYDWILYM

Mae Tymor y Pasg yn agosau ac mae llawer o bobol i'w gweld yn mwynhau eu gwyliau yn y Cwm. Bydd y gwasanaethau canlynol yn cael eu cynnal yn y Capel.

Mawrth 20fed: Parch Peter M Thomas - 10.30 (Cymun) Ebrill

3ydd: Hefin Wyn - 10.30

17eg: Parch Euros Jones Evans - 2.00 (Cymun y Pasg)

Mai 1af: Lyndon Lloyd - 2.00

Mai 15fed: Parch Tom Defis - 10.30 (Cymun)

Dymunwn wellhad buan i'r rhai sydd wedi cael triniaeth feddygol yn ddiweddar, ac i bawb sydd yn anhwylyd ar hyn o bryd.

Dymunwn Basg hapus a dedwydd i bawb.

HENDYGWYN AR DAF

Tabernacl

Mae amser Gŵyl Ddewi yn amser prysur yn y capel ac felly roedd hi yn y Tabernacl, Hendy-gwyn eleni eto.

Cafwyd oedfa Gŵyl Ddewi yng ngofal y plant yn adrodd hanes bywyd Dewi Sant. Ac roedd y plant wedi gwisgo lan yn ei gwisg Gymreig a chrysau rygbi.



Oedfa Gŵyl Ddewi yng ngofal y plant



Yna ar Ddydd Gŵyl Dewi ei hunan fe wnaeth Cymdeithas y Tabernacl gynnal ei cinio Gŵyl Ddewi blyneddol. Y lleoliad eleni oedd Llety Cynin a chafwyd pryd hyfryd yno. Y siaradwr gwadd oedd y Parchedig

Geoffrey Eynon, Casblaidd a chafwyd anerchiad hyfryd ganddo. Yn ogystal ag adrodd hanes ei fywyd fe roddodd i ni olwg ar fro ei febyd sef Maenclochog yn 50au a 60au y ganrif ddiwethaf. Cafwyd darlun cofiadwy ganddo o'r gymdeithas Gymreig, Gristnogol ac agos a fodolai yno pan oedd yn blentyn.



Cinio Gŵyl Ddewi yn Llety Cynin

Yn ystod mis Chwefror fe gyflwynodd George Bancroft dwy sic er cof am ei wraig, y diweddar Sheila Bancroft. Cyflwynwyd sic o £200 i'r capel a sic am £225 i'r Ysgol Sul. Roedd Sheila yn annwyl iawn gyda ni gyd ac rydym yn gweld ei heisiau yn fawr. Diolch yn fawr George.



Cyflwyno siciau er cof am Sheila Bancroft - o'r chwith, Huw Jones, Elizabeth White, George Bancroft, Meryl James a Guto Llywelyn

Mae nifer o aelodau wedi colli anwyliad yn ystod y misoedd diwethaf yma ac rydym yn cydymdeimlo yn fawr gyda nhw gyd.

arwyddion
eaglesigns

Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Llifrau Cerbydau...

01994 231 749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk

UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS
Dandre
Llanboidy

 Paentiwr ac
Addurnwr

Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL
 Monraker 
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
 
Ffôn: 07837 089648

Brawychwyd a syfrdanwyd ni gyd gyda beth ddigwyddodd yn yr Wcráin ddiwedd Chwefror. Wrth ysgrifennu'r golofn yma mae'r sefyllfa yn gwaethygu bob dydd gyda channoedd wedi eu lladd a degau o filoedd yn gorfod ffoi'r wlad fel ffoaduriaid. Gwelwyd ymateb rhyfeddol gan lawer i sefyllfa'r ffoaduriaid gyda DEC yn codi £55 miliwn mewn diwrnod. Cawsom ni gyfle i chwarae ein rhan fach ni gyda chasgliad ar Sul cyntaf Mawrth pan godwyd dros £550 yn y casgliad at ffoaduriaid Wcráin. Diolch i bawb am eu haelioni. Gweddïwn o waelod calon y bydd y rhyfel ofnadwy yma drosodd cyn gynted â phosibl.

Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno gyda ni ar gyfer ein hoedfaon. Byddwn yn falch eich gweld. Mae manylion yr oedfaon i'w cael ar dudalen facebook 'Tabernacl Hendygywyn' neu trwy gysylltu gyda'r swyddogion neu'r gweinidog.

Priodas Arian



Llongyfarchiadau i'r Parchedig Guto a Catrin Llewelyn ar ddathlu eu Priodas Arian ar Fawrth y 1af. Dymuniadau gorau iddynt. (Gol.)

Diolch

Dymuna teulu Nelda Llewellyn, Hendygywyn, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn, blodau a rhoddion tuag at Yr Ardd Goffa, Cartref Tŷ Mair a dderbyniwyd er côf am fam, mamgu a hen famgu cariadus. Fe gyflwynwyd £600 i Tŷ Mair. Diolch hefyd i Ken a Lynys Davies am wneud y trefniadau ac i Meryl James am y blodau.

Cyflwyno Sieciau er côf am Sheila Bancroft

Yn sy'dilyn dymuniadau'r diweddar Sheila Bancroft derbyniwyd rhoddion yn lle blodau ac yna gellid rhannu'r arian a gasglwyd er budd elusennau lleol.



Yn y llun gwelwn Ann Glanville, trysorydd cangen Merched y Wawr Hendygywyn yn derbyn siec o £200 ar ran y gangen oddi wrth George Bancroft er cof am Sheila, a fu'n aelod mor weithgar a ffyddlon dros y blynyddoedd.

Hefyd, gwelir Tony Hughes yn derbyn siec o £250 er cof am Sheila Bancroft, ar ran Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda.



Dyma Jane Williams yn derbyn siec o £200 o ddwylo George Bancroft fel rhan o'r arian a gasglwyd i goffau ei wraig. Bu Sheila'n rhedeg yr Ysgol Feithrin yn ystod ei blynyddoedd cynnar yn y Neuadd Goffa. Diolch yn fawr i George am ei garedigrwydd.

Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd
07814 543634

*Salon Harddwch a Chyflenwol
Crymlych*

Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion

**POBYDDION
COUNTY STORES**

San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

Cylch Meithrin Hywel Dda



Diwrnod y Llyfr - Bore



Diwrnod y Llyfr - Prynhawn



Dathlu Dydd Gŵyl Dewi - Bore



Dathlu Dydd Gŵyl Dewi - Prynhawn

Cylch Ti a Fi Hywel Dda



Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Cylch Hywel Dda yn lansio Clwb 100 mewn digwyddiad ym mis Ebrill

Mae Cylch Hywel Dda yn lansio Clwb 100 ym mis Ebrill, a bydd y rhif cyntaf yn cael ei dynnu yn ei digwyddiad dathlu pen-blwydd yn 50 oed - 7yh ar 23ain Ebrill yn Neuadd y Dref Hendy-gwyn ar Daf.

Dros yr hanner canrif diwethaf, mae'r grŵp chwarae cyfrwng Cymraeg wedi cefnogi addysg a datblygiad nifer fawr o blant cyn-ysgol o Hendy-gwyn ar Daf a'r ardal oedd cyfagos.

Mae'r digwyddiad yn addo bod yn noson hwyliog gydag adloniant gan y band jazz 'The Numbers Racket', arwerthiant a phrydau ysgafn.

Loteri yw Clwb 100 yn agored nid yn unig i rieni/gofalwyr plant sy'n gysylltiedig â'r Cylch ond hefyd eu ffrindiau a'u teulu ac unrhyw un yn y gymuned sydd â diddordeb

 **the LONDON HOUSE**
butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygywyn ar Daf
SA34 0AN

01994 240705 / 240055

Galwch mewn am y dewis gorau

Dilynwch ni ar Facebook 

 **GERALD BLAIN**
CYMDEITHION CYF

Ymgynghorwyr Cynllunio
a Phensarnïol

15 STRYD ST IOAN, HENDYGYWYN,
SIR GAERFYRDDIN, SA34 0AN

01994 240 366

GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK

GERALDBLAINASSOCIATES.COM

@GBASSOCIATES1

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen

Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

mewn cefnogi'r Cylch. Drwy ymuno â Chlwb 100 Cylch Hywel Dda am £12 y flwyddyn gallwch helpu i sicrhau ein bod yn codi arian a fydd yn cefnogi costau rhedeg y Cylch, yn ogystal â chael cyfle i ennill gwobrau ariannol bob mis!

I gael rhagor o wybodaeth am y Clwb 100 neu'r digwyddiad (tocynnau £15), e-bostiwch cylchhyweldda@icloud.com



ENILLWYR CLWB CANT CYMDEITHAS GENEDLAETHOL HYWEL DDA

Enillwyr Mis Chwefror

- 1af. – W. Griffiths £50.
- 2ail. – D. Ebsworth £40.
- 3ydd. – Olive Bedford £30.
- 4ydd. – Nest Williams £20.

Enillwyr Mis Mawrth.

- 1af. – Twm Ifan, Caerdydd £50.
- 2ail – Rosemary Robinson £40.
- 3ydd. – Karen a Andy Webster £30.
- 4ydd. – Jean a Ithel Parri Roberts £20.

Hoelion Wyth -Cangen Hendygywn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth ar nos Iau, y 3ydd yn Lolfa Clwb Rygbi Hendygywn.

Cyn cynnal y cyfarfod arferol, cafodd yr aelodau fasnied o gawl blasus a baratowyd gan Sarah ar ran y Clwb a diolchwyd iddi gan Claude James, y cadeirydd. Yn garedig iawn, daeth Verian Williams a boosed mawr o bice-ar-y-maen a wnaed gan ei briod, Margaret – diolch yn fawr i'r ddau.

Yn dilyn, a chyn dechrau'r cyfarfod arferol, cafwyd munud o dawelwch i feddwl ac i gofio am drigolion yr Wcraïn yn eu trallod.

Dymunwyd yn dda i Dewi James ar ôl iddo gael llawdriniaeth ar ei lygaid.

Y siaradwr gwadd oedd Teifryn Williams o Aberdaugleddau ac estynnwyd croeso iddo gan y cadeirydd. Brodor o ardal Efailwen yn wreiddiol ac yn nai i'r enwog Waldo Williams.

Cafodd radd mewn Hanes a Sbaeneg o Brifysgol Aberystwyth; mae wedi cael bywyd llawn – o fod yn gweithio ar fferm ym Mlaenwaun, yn werthwr llaeth ac yn berchen busnes yn gwerthu rhannau ceir. Yn awr mae'n dywysydd i bobl sy'n dod ar eu gwyliau i Sir Benfro.

Mae ganddo ddiddordeb mewn beics a beicio, a dyna oedd byrdwn ei gyflwyniad.

Mae'n berchen ar nifer o feics ac wedi beicio yn Sbaen, Llydaw a Patagonia. Yr hyn gafwyd ganddo oedd hanes ei daith, ar feic, yn dilyn taith Mari Jones pan aeth i brynu Beibl.

Disgrifiodd y daith yn fanwl o'r dechrau i'r diwedd ac'roedd yr hanes yn ddiddorol dros ben.

Cafwyd sesiwn byr o holi ac ateb a diolchwyd iddo gan Ithel Parri Roberts.

RHYDYCEISIAID

Pulud

Gwasanaethwyd yn oedfa'r Cymun ar Sul, Mawrth 6ed gan y Parchedig Guto Llywelyn a diolch iddo.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Elfed ac Eifiona Lewis a'r teulu ar farwolaeth perthynas sef Mr Dalys Elias o Gaerfyrddin.

...hefyd â Derek Saer, Brynbanc Lodge ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith sef Mrs Eirlys Saer o Lanpumsaint

....hefyd estynnwn ein cydymdeimlad dwys ag Eifion Saer ar golli ei briod Eirlys, cofiwn am y teulu i gyd. 'Roedd Eifion yn un o blant y capel ac yn aelod ffyddlon.

....hefyd â Trefor Griffiths, Mair a Ronnie Morgan, Eifion a Violet Griffiths a Dewi Griffiths a'u teuluoedd ar farwolaeth perthynas ychydig amser yn ôl sef Mrs Pam Kuhl o Hendygywn.

Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Neville Griffiths sydd yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau i bawb sydd yn anhwylyd yn eu cartrefi.

CWMFELIN MYNACH

Ramoth

Cynhaliawyd oedfa Gymun ar Sul, 6ed o Fawrth gyda'r Parch Euros Jones Evans yn gwasanaethu.

Gyda'r sefyllfa trychinebus yn yr Wcraïn penderfynwyd anfon cyfraniad o'r Eglwys i'r ffoaduriaid trwy elusen DEC Cymru.

Cydymdeimlwyd â Susan Davies ar farwolaeth ei chefnider, Malcolm John o Ddolgellau. Roedd Malcolm yn fab i'r diweddar Barch. a Mrs Alan John (gynt o Glandwr).

Dymuniadau gorau i Ivy Edwards, sydd wedi cael llaw driniaeth ar ei llygad.

Bu gwasanaeth Sul 13eg dan ofal y Parch. Huw George.

Trefn yr Oedfaon am fis Ebrill

3ydd: Oedfa Gymun yng ngofal Annalyn Davies - 10.30
10fed: Parch Huw George - 2.00

Penblwydd

Pob dymuniad da i Nansi Evans, Penybont a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 97 oed ar Ebrill 25ain.

CEFNYPANT

Hoffai Haulwen a'r teulu, Cefnypant House ddiolch o galon am bob gair o gysur yn dilyn colli Allen. Diolch i'r Parch. Huw George am ei wasanaeth cartrefol yng nghapel Ramoth ac i'r Parch. Guto Llywelyn a'r Parch. Jenni Parsons am eu presenoldeb. Trefnwyd yr angladd yn urddasol gan Mr a Mrs Dennis Jones, Efailwen.



Derbyniwyd £765 yn roddion er côf am Allen a chyflwynwyd y swm i'r Uned Gofal Clinigol, Ysbyty Glangwili gan Haulwen Lewis. Diolch i bob un ohonoch.

Penblwydd

Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i Dai Evans, Cnwc y rhiw, Cefnypant a fu'n dathlu ei benblwydd yn 70 oed yn ddiweddar.

LLANBOIDY

Sefydliad y Merched

Cyfarfu'r aelodau yn Neuadd y Farchnad ar Chwefror y 10fed om dan lywyddiaeth Denise Harris gyda 14 yn bresennol. Ar ôl trafod y busnes arferol bu'r aelodau yn

gwneud gwaith llaw – sef Cenhinen Pedr o dan arweiniad Denise.

Bydd cyfarfod mis Mawrth yn y Neuadd am 2.30 y prynhawn.

Penblwydd. Dymuniadau gorau i Margaret Kedward a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i W.J. a Heulwen Davies, Stag ar dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol ym mis Mawrth.

Gwellhad buan – Meddyliwn am Jayne Young, Sar-nau sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty St. Thomas' Westminster, Llundain. Gobeithio y bydd yn medru dod adref cyn hir.

Cydymdeimlwn â Susan Davies, Maes y Werin ar farwolaeth ei chefnider, Malcolm John o Ddolgellau.

GWAWR NEWYDD I LANBOIDY

Bydd digwyddiadau amrywiol yn cael eu cynnal bob dydd Mawrth o'r 8fed o Fawrth i Ebrill 12fed yn Neuadd y Farchnad a gweithgareddau i blant bob dydd Sadwrn am 11yb. hyd Ebrill 2ail.

Bydd y fenter hon yn cael ei hariannu gan grantiau a geir gan 'Gwawr Newydd Llanboidy'.

Bydd boreau coffi yn rhan o'r digwyddiadau, cyn y gweithgaredd wythnosol.

Priodas Ddiemwnt



60

Pwy yw'r pâr hapus yma sy'n dathlu eu Penblwydd Priodas Ddiemwnt ddiwedd mis Mawrth?

Llongyfarchiadau oddi wrth y teulu oll.

SPAR 

 **Jerry Williams a'i Feibion**

GROSER a SWYDDFA BOST

 **CLOTH HALL LLANBOIDY**

Ffôn: 01994 448364 / 448221 

 **Adelladwyr DORIAN PHILLIPS**

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywyn, Sir Gar, SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 : Rhif Symudol 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad
Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm
A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbuidingsupplies.co.uk

BANCYFELIN

Te Prynhawn yr Ofalaeth



Mwynhawyd Te Prynhawn yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg ar bawn Sul, 27ain Chwefror i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Dyma fenter newydd a brofodd i fod yn llwyddiannus iawn gyda'r stafell fach yn llawn, a'r cwmni yn un hwyliog iawn. Heriwyd pawb i orffen limrig a bu'r cystadlu mor frwd a'r safon mor uchel fel y penderfynwyd nad oedd modd dewis buddugol - roedd pob un yn haeddu'r goron! Cafwyd llawer o hwyl yn ceisio ateb y cwestiynau amrywiol a osodwyd gan Beti Wyn mewn cwis. Roedd y cwestiynau yn amrywio o rhai cyffredinol i rhai cerddorol, o fyd y ffilm i gestyll. Bu'r ymateb i'r prynhawn ar ei hyd yn ardderchog. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

Dydd Gweddi'r Byd



Cynhaliwyd Oedfa Dydd Gweddi'r Byd yn festri Cana Bancyfelin ar gyfer Capeli cylch Bancyfelin nos Wener, 4ydd Mawrth. Diolch i bawb a ddaeth ynghyd.

Cana a Bancyfelin Dathlu Gŵyl Dewi



Mwynhaodd dros 40 o aelodau o eglwysi Cana a Bancyfelin ginio Gŵyl Dewi bendigeidg yn Neuadd Bancyfelin bawn Sul, 6ed o Fawrth wedi ei drefnu gan aelodau Cana. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu wrth y trefniadau a diolch arbenig i Sheila, County Stores am y cawl blasus ac i'r gwragedd am y melysion. Arweiniwyd pawb mewn epillog cyn troi am adre. Da oedd bod yno i ddathlu Gŵyl ei Nawddsant wyneb yn wyneb - y tro cyntaf ers tro byd.

Gibeon

Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd yng Nghana ar Nos Wener, Mawrth 4ydd. Cafwyd oedfa hyfryd a diolch i Annalyn, Iona a Beti-Wyn am gymryd rhan dros Gibeon. Diolch, hefyd, i Iona am drefnu'r oedfa.

Mae pobl yr Wcrain yn ein meddyliau, diolch am bob cyfle i ymuno mewn Gwylnos neu Gwrdd Gweddi ar y wé i gofio amdanynt.

Trefn Suliau mis Ebrill yw:

Ebrill 3ydd - Oedfa Gymun ym Methlehem Newydd
Ebrill 10fed - Mr. Lyndon Lloyd, Bethlehem Newydd
Ebrill 17fed - Oedfa Basg yng Ngibeon dan ofal yr aelodau.

TRELECH

Llongyfarchiadau mawr i Tomos Nicholas- Jones Treto Isaf ar ddathlu ei benblwydd yn ddeunaw mlwydd oed ar y deunawfed o Fawrth. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

Cydymdeimlwn â gŵr a theulu y diweddar Mrs Pat Cannings, Cartref. Bu'r angladd ddydd Mawrth yr 8fed o Fawrth yn amlogfa Arberth. Roedd o hyd yn wyneb hapus a chyfeillgar o amgylch y pentref.

TAF AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7 -12.00

**MASNACHWYR
ADEILADU**

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan

ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

ARWYDDION A DYLUION

BOOMERANG
SIGN & DESIGN

01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk

UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

PWLL TRAP

Mae pentrefwyr Pwll Trap wedi gweld eisiau'r blwch postio a symudwyd ym mis Hydref oherwydd ei fod wedi pydru. Gobeithio, erbyn y bydd y rhifyn hwn o'r Cardi Bach wedi ei gyhoeddi, y bydd blwch postio newydd wedi ei osod gan y Post Brenhinol!

Dathlu Pen-blwyddi



Dyma lun o Mary Williams, Llwnteg yn dathlu'i phenblwydd gyda'i theulu. O'r chwith i'r dde - Janet, Gwyndaf, Eirith, Eleri, Ann, Glanmor a Thelma. Roedd yna dipyn o ddathlu gan fod Eirith ac Ann yn dathlu'u pennau blwydd ar yr un diwrnod hefyd, gydag Eirith yn 60 ac Ann yn 70. Braf oedd cael pawb ynghyd.

Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Don a Rita James, Hafan Heddd, Clôs Nathaniel ar ddathlu'u Priodas Ddiemwnt ar Fawrth 10fed.

Bethlehem Newydd

Mae Dewi Griffiths wedi derbyn llaw-driniaeth ar ei lygad a'i law. Da yw deall ei fod wedi gwella'n dda o'r ddwy driniaeth.

Cafwyd oedfa ddiddorol yng ngofal y Parch. Wyn Vittle ar Chwefror 27ain ac oedfa hyfryd i ddathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth 6ed gyda'r aelodau yn cymryd rhan. Diolch i Marian am baratoi'r oedfa. Dai Rees oedd wrth yr organ yn y ddwy oedfa. Diolch i Annalyn a Marian, hefyd, am addurno'r capel mor hyfryd.

Trefn Suliau mis Ebrill yw:

Ebrill 3ydd - Oedfa Gymun ym Methlehem Newydd
Ebrill 10fed - Mr. Lyndon Lloyd, Bethlehem Newydd
Ebrill 17fed - Oedfa Basg yng Ngibeon dan ofal yr aelodau.

Tŷ Croeso



Dathlwyd Gŵyl Ddewi gyda Noson Gawl yn Yr Hen Ysgol ar Fawrth 1af. Paratowyd cawl blasus a phancos, pice bach a bara brith gan Sue Hughes. Cafwyd anerchiad difyr gan y gweinidog a braf oedd cael cymdeithasu dros y byrddau. Diolch i Annalyn am drefnu'r noson.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu hen sbectol i'w danfon i wledydd tlotaf y byd a, hefyd, am gyfrannu Wyau Pasg i blant Lloches Menywod Caerfyrddin. Mae nwyddau Masnach Deg wedi eu harddangos yn y capel a chafwyd cyfle i'w prynu.

SAN CLER

Llongyfarchiadau i Kevin a Nia Ward, Llysnewydd ar ddod yn dadcu a mamgu. Ganwyd mab bach, Ifan, i Elan a Rhodri yn Newbury.

Mae'r Cardi Bach nawr ar werth yn Pethau Olyv a Siop Gigydd Deri Page yn ogystal â County Stores a Llawn Cariad.

**GWASANAETH
CEIR HENDYGWYN**

Canolfan
atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts a.y.y.b

Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygywyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

**SIOP SIAN
CRYMYCH**



Crefftau Cymreig
Gemwaith Rhiannon
Crisial Brenhinol Cymru
Crefftau Lleol
Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau
Crymych, SA41 3QF
FFôn: 01239 831230



- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Dyma lun o Thom Davies yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae Thom yn ŵyr i Lyn a Bethan Davies, Derlwyn Taf, San Clêr.

LLANGYNIN**Pen blwyddi mis Mawrth**

Llongyfarchiadau i Roy Reynolds, Tymore, ar ei ben blwydd yn 88 oed ar Fawrth 11eg.

Pob dymuniad da a phenblwydd hapus iawn i Gareth Thomas, Pantglas, a fu'n dathlu ei ben blwydd yn 80 oed ar Fawrth 18fed, hefyd i Granville Davies, Angorfa, yntau'n dathlu pen blwydd arbennig yn 90 oed ar Fawrth 23ain. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r tri ohonynt.

Priodas Aur

Dymuniadau gorau i Elfed ac Eifiona Lewis, 3 Llys Coed, ar eu Priodas Aur ddydd Gwener, Mawrth 25ain. Llongyfarchiadau iddynt ar ddathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol.

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Elfed Rees, Bryn Villa gynt. Cofiw'n am Angharad, Aled a Gwenllian ac am Gillian ei chwaer a'r teulu oll yn eu colled a'u hiraeth.

Bingo'r Bryn

Bwriedir cynnal Noson Bingo yn y Bryn nos Iau, Ebrill 28ain. Y galwr fydd Mr. Glyn Rees, Sanclêr. Drysau ar agor am 7.00 yr hwyr. Manylion pellach i ddilyn yn rhifyn mis Ebrill.

Clwb 60+

Ar ddydd Iau y 3ydd o Fawrth cyfarfu'r Gymdeithas yng Nghaffi Beca Efailwen i ddathlu Gwyl ein Nawddsant pryd y daeth tua 30 o'r aelodau ynghyd. Braf oedd cael cymdeithasu unwaith eto a bu'n brynhawn pleserus dros ben. Diolch am y trefniadau ymlaen llaw a diolch arbenig i Robert a'i staff am y cawl bendigedig, y pwdinau blasus a'r cacenni bach Cymreig. Gwerthfawrogwyd y wledd yn fawr iawn.

Roedd Rosemond a Bill wedi paratoi cwis diddorol am Gymru a phethau Cymraeg a diolch iddyn nhw am yr adloniant. Cafwyd nifer helaeth o wobrau raffl ac enillwyd rhain gan amryw o'r aelodau. Diolchodd Verian i bawb am brynhawn bendigedig tu hwnt.

Bydd y Clwb yn cwrdd nesaf ar bnawn Iau y 14eg o Ebrill yn Neuadd y Bryn yn Llangynin. Croeso cynnes i bawb.

Grŵp Garddio a Natur Llangynin

Mae Grŵp Garddio a Natur Llangynin wedi trefnu rhaglen o ymweliadau â gerddi dros fisoedd yr Haf a siaradwyr gwadd o fis Medi i fis Mawrth yn Neuadd y Bryn. Ar gyfer yr ymweliadau â'r ardd bydd angen rhannu car. Bydd y cyfarfodydd yn y Bryn yn costio £2 y cyfarfod sy'n cynnwys lluniaeth ysgafn a raffl. Bydd croeso mawr i unrhyw aelod newydd.

EFAILWEN

Llongyfarchiadau gwresog i Mabli John a'i brawd Llew am gymeryd rhan yn y gyfres Hei Hanes ar S4C yn ddiweddar. Maent yn amlwg yn dilyn ôl troed eu tad Rhodri.

Mae Capel Nebo wedi ail agor ers mis Chwefror. Edrychwn ymlaen i groesawu y Parchedig Catrin Thomas atom yn y prynhawn ar y 10fed Ebrill, braf bydd cael ei chwmmnl eto.

Hoelion Wyth - Cangen Beca

Cyfarfu aelodau Hoelion Wyth Beca, yn ôl ein harfer yng Nghaffi Beca, Efailwen, a hynny ar nos Fercher, Chwefror 23ain.

Ein gŵr gwadd oedd Aled Davies, Clunderwen (Aled Babiog) ac estynodd Eifion Evans, y Cadeirydd, groeso cynnes iddo. Cafodd Aled yrfa lwyddiannus gyda Heddlu Dyfed Powys, cyn ymddeol yn ifanc rai blynyddoedd nôl.

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
 FFENESTRI, DRYSAU, PVC
 YSTAFELLOEDD GWYDR
 A GWTERI
 TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
 01437 563 806 07774 812587

CAFFI BECA
 Oriau Agor: 9.00yb-2.30yp
 dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
 01994 419735

Cartref Oddi Cartref
Y GARREG LWYD, HEOL SALEM, SANCLER

FFONIWCH SHEILA BEYNON
Y RHEOLWRAIG
 01994 230855

Cawsom hanes ei waith gyda'r heddlu ond canolbwyntiodd ei anerchiad yn benodol am ei brofiad yn rhan o'r tîm fu wrthi'n datrys llofruddiaethau Shir Benfro. Esboniodd sut cafodd John Cooper ei ddal a'i dded-frydu am lofruddio Richard ac Helen Thomas, brawd a chwaer fu'n byw ym Maenor Scoveston, yn ogystal â Peter a Gwenda Dixon, gŵr a gwraig o Rydychen, ddaethpwyd o hyd i'w cyrff ar lwybr yr arfordir gerllaw Little Haven.

Soniodd Aled am y broses manwl a chymleth o gasglu tystiolaeth, mewn dyddiau lle roedd technoleg ffensiog yn gyntefig iawn. Esboniodd hefyd am sut agorwyd "cold case review", tra roedd John Cooper yn y carchar am fwrgheriaeth. Cafodd ei gysylltu, heb unrhyw amheuaeth, am lofruddio'r pedwar. Roedd hynny flynyddoedd wedi iddo gyflawni'r troseddau erchyll, diolch i dechnoleg diweddar DNA. Canfuwyd olion gwaed a "fibres" y bobol lofruddiwyd, o dan cot o baent ar ddryll o eiddo Cooper, yn ogystal ag o dan "hem" ei shorts, oedd wedi cael ei addasu rai blynyddoedd cynt.

Mae nifer yn credu taw John Cooper fu'n gyfrifol am lofruddio Griff a Patti Thomas, y brawd a'r chwaer o Ffynnon Samson yn 1978 hefyd, gan ei fod yn gwneud gwaith ffensiog yn yr ardal gyfagos bryd hynny. Mae ymgyrch ar y gweill i geisio ail agor yr achos hynny, ond does dim sicrwydd bydd hynny'n digwydd, gan bod amheuaeth os yw eitemau pwysig o dystiolaeth wedi eu cadw.

Cawsom nifer o straeon doniol ganddo hefyd oedd yn cadarnhau ei fod wedi mwynhau'r profiad o weithio i Heddlu Dyfed Powys.

Diolchodd Eifion, yn ddiffuant i Aled, am noson wych a bu pawb yn cymdeithasu ymhellach wrth fwynhau basned o gawl. Diolch o galon i Robert am yr arlwy ac am ei groeso arferol, gwerthfawrogn y cyfan yn fawr iawn.



Eifion Evan, Ken Thomas ac Eurfyl Lewis yng nghwmni'r siaradwr gwadd sef Aled Davies (Aled Babiog)

LLANDYSILIO

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Rebecca a Gareth Roblin, Fferm Clunderwen ar golli eu mamgu, sef Maisie Howells, Fron, Llanddewi Velfrey. Meddwl amdanoch fel teulu.

Priodas Ddiemwnt



Llongyfarchiadau i Brenda a John Thomas, Caerelwyn, Llandysilio ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt ar 10fed o Fawrth 2022. Dymuniadau gorau iddynt oddi wrth aelodau o'r teulu, ffrindiau a chymdogion.

Cylch Meithrin Llandysilio



Rydym wedi bod yn brysur iawn yn ystod y mis, yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Fe wisgodd y plant lan yn eu dillad traddodiadol, a buom yn dawnsio gwerin, a llawer o weithgareddau eraill. Bu rhai ohonynt yn cerdded lan trwy y pentref yn eu gwisg. Hefyd fe aethom i weld y cennin pedr yn y cae ar bwys. hefyd yn gwneud crempog.

Addysg Gymraeg i blant 2-4 oed, yn Neuadd Llandysilio. Bore Llun, Mawrth, Iau a Gwener. 9.00yb tan 12.00 canol dydd. £8 y sesiwn.

Cylch Ti a Fi Llandysilio

I blant 0-4 gyda rhiant/gwarchodwr. Pob bore Mercher 10yb tan 12.00 yn Neuadd Llandysilio. £3.00 y sesiwn.

Am fwy o fanylion am y Cylch Meithrin a Ti a Fi cyswlltwch â Delyth Roblin ar 07882639867

Pwyllgor Neuadd Llandysilio

Dewch i ymuno â ni yng nghyfarfod Pwyllgor Neuadd Llandysilio, mae croeso mawr i chi. Rydym yn cwrdd ar yr ail nos Lun o bob mis am 7.30yh

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Llun Ema Farnden ac Osian Jones, wyres ac ŵyr Delyth a Michael Roblin, Fferm Glynty, Clunderwen yn eu gwisg Gymreig i dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio

Yn dilyn cyfarfod mis diwethaf pan gynhaliwyd Dawn-sio Llinell ('Line Dancing') penderfynwyd cynnal sesiynau yn Neuadd Clunderwen ar yr 2ail a'r 4ydd nos Lun o pob mis. Dewch i ymuno â ni am 7.30 tan 9.00yh. Fe fydd cwpaned o de ar gael hanner amser.

Mis nesaf, ar y 4ydd o Ebrill, byddwn yn gwneud Origami. Cynhelir cyfarfodydd Sefydliad y Merched ar y nos Lun 1af o bob mis. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH

Ar drothwy blwyddyn ers colli Eleri Wyn Llewelyn, fe hoffai'r teulu ddiolch am y cyfraniadau a wnaed i elusennau a oedd yn agos at galon Eleri.

Codwyd £2,115.46 tuag at yr uned chemotherapi yn Llwynhelyg a £1,000 at gronfa Ysgol Dyffryn Taf.

Fe hoffai Siwan a Dafydd Parry, Maes yr Efydd, Mynachlogddu ddiolch yn fawr i bawb am eu haelioni a'u cyfraniadau i'r gronfa 'Her Anti Ler' wrth iddynt gerdded 100 milltir yn mis Gorffennaf a chodi dros £1,800 ar gyfer Ymchwil Canser - ac er cof am Eleri.

LLANGLYDWEN**Diolch**

Diolch o galon i bawb am y llu negeseuon, cardiau ac anrhegion dderbyniais ar achlysur fy mhenblwydd yn 60 oed yn ddiweddar. Gwerthfawrogaf y cyfan yn fawr iawn. *Eurfyl*

**NEWYDDION
BLAENCONIN****Agorwyd y Drysau !**

Braf oedd cael 'agor drysau mawl' unwaith eto a gweld y ffyddloniaid yn uno mewn addoliad. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn anodd i bob un ohonom ac ambell deulu wedi dioddef yn ofnadwy. Yn ein llawenydd o weld y drysau ar agor, daliwn i gofio am y rhai hynny sydd wedi wynebu cyfnodau anodd.

Mae cyfrifoldeb arnom i edrych ar ôl ein hunain a'n gilydd gan edrych ymlaen yn ffyddiog i'r dyfodol.

Datrys Dirgelwch y Deugain

Rhoddodd Emlyn Gibby, Royal Exchange, 'her' i'r gweinidog ar ddechrau ei weinidogaeth ym Mlaenconin ac ar ôl deugain mlynedd, mae Huw mewn sefyllfa i gyhoeddi i'r aelodau ac i ddisgynyddion Emlyn, ei fod wedi dod o hyd i un o gadeiriau Eisteddfod Blaenconin. Enillwyd y gadair gan Edgar Phillips 'Trefin' yn 1925. Bellach, mae'r aelodau a chyfeillion yr Eglwys yn casglu gwybodaeth am Eisteddfod Blaenconin gyda'r bwriad o ddadorchuddio'r gadair mewn oedfa arbennig. He-fyd, hyfryd yw cael cyhoeddi ein bod i dderbyn Cadair Eisteddfod Clunderwen oddi wrth deulu'r Prifardd Tomi Evans, Blaenffynnon, Tegryn. Enillwyd y Gadair yn 1954 ac mae Wyn a Heather, sydd bellach yn byw yng Nghaerfyrddin, am gyflwyno'r Gadair i'r Eglwys ym Mlaenconin. Amser cyffrous i bawb sy'n caru hanes Blaenconin a Chlunderwen.

Canmlwyddiant Cofeb Llandysilio

Dadorchuddiwyd Cofeb Llandysilio ar y 1af o Fawrth, 1922 a chynhaliwyd cyfarfod syml o flaen y Gofeb ar ddydd Gŵyl Dewi 2022. Oherwydd y gyflafan yn Wcráin, penderfynwyd nodi'r Canmlwyddiant yn ffurfiol yn hwyrach yn y flwyddyn.

ANTURIAETH YR ARFORDIR

Dechreuwyd ar 'ANTURIAETH yr ARFORDIR' sawl blwyddyn yn ôl ac erbyn hyn mae'r anturiaethwyr wedi cyrraedd Traeth Mawr ger Tyddewi.

Mae'r cerddwyr wedi cwblhau tua 70 milltir ac ychydig dros 110 o filltiroedd i fynd cyn cwblhau'r 'Anturiaeth'. Mae'r Anturiaethwyr wedi bod yn 'gorffwys' yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond yn bwriadu ail-ddechrau yn ystod y Gwanwyn.

Byddai o fudd i wybod pa ddiwrnod sydd yn fwyaf cyfleus i'r rhai sy'n dymuno ymuno yn yr 'anturiaeth'.

Ymlaen a'r anturiaeth !

B B C

Mewn ymgais i arwain y teulu Cristnogol allan o dywyllwch y misoedd diwethaf, bwriedir gwahodd aelodau a chyfeillion yr Eglwys Cristnogol i gyfarfod arbennig yng **NGHAFFI BECA** ar y dydd Llun cyntaf o'r mis i drafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Bydd y **BWRDD BRECWAST CYMUNEDOL (BBC)** yn gyfle i drafod syniadau, rhannu gofidiau a mwynhau'r arlwy.

Mae'r bwyd **AM DDIM** felly, yng ngeiriau'r proffwyd Eseia ...

**'Dewch i'r dyfroedd,
bob un y mae syched arno ;
dewch, er eich bod heb arian ;
prynwch a bwytwch'**

Eseia 55 : 1

Mae lle i 30 i ddod ynghyd ac felly, y 'cyntaf i'r felin' ac ati. Cofiwch i sicrhau lle, cysylltwch â Huw ...

huwmg@hotmail.com
07967807908

Gwlithyn Bro

Mae 'Gwlithyn Bro' mis Mawrth 2022 ar gael ac yn cynnwys newyddion am yr hyn sydd i ddod yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

NEWYDDION o'r FFYNNON

OEDFAON yn y FFYNNON

Mawr yw'r cyffro wrth i'r aelodau drefnu Oedfa Gy-mundeb yn y Ffynnon nos Iau, 14eg Ebrill am 7 o'r gloch i gofio'r Swper Olaf.

Rhediad tractor
Er cof am lanto Jenkins

Digwyddiad elusenol

SADWRN, 9^{ed} O EBRILL, 2022
TRACTORAU, CEIR, LORIAU A
BEICIAU MODUR

CYFARFOD YM MHARC GWYNFRYN,
CRYMACH SA41 3RQ 11YB A GADAEL
CANOL DYDD

£5.00 Y CERBYD

ADLONANT GYDA'R NOS

AM 7.30 Y.H YN RHOSFACH, EFALWEN S466 7XG

ARTISTIAID LLEOL - DAFYDD PANTROD A'R
BAND, JESSICA ROBINSON, SKONED
LLEWELYN, RHYS MCLOUGHLIN, CLIVE
EDWARDS, PLANT YSGOL BECA, COR
CLWB RYGBI CRYMACH A IMAN WARD DJ

BAR A BWYD

OCSWYN ADDEWIDION A RAFFEL

£10 Y PERSON, TOCYNNAU CYFYNGEDIG AR
GAEL WRTH GLENNI EVANS (07501451154), KIM
DAYLES (0750653276), RHOSFACH (07866053380)
A SHOP SIÂH CRYMACH
ARSAN PAROD YN UNIG

HOLL ELW I FYND I:
CYMORTH CYNTAF / BRIGAD
DAN CRYMACH, TIR DEWI /
SYLFAEN DPJ, 2 WISH,
CYLCH WEITHUR HERMON,
CYNNAL A CHADW
DIFFIBRILWR EFALWEN A
MYNWEIT CAPEL NENO



O dan yr amgylchiadau presennol, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn gweithio i ddarparu gweithgareddau a sesiynau i chi allu parhau i gymdeithasu a byw yn Gymraeg yn ddigidol ac wyneb yn wyneb yn unol â chyfarwyddiadau'r Llywodraeth parthed cyfyngiadau.

Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi:

Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb wnaeth ymuno gyda ni ar draws ardal y Fenter i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac i'r holl bartneriaid am gydweithio, edrychwn ymlaen at y dathliadau nesaf yn barod.

Wythnos 'Gaeaf Llawn Lles':

Cafodd y Fenter amserlen brysus dros hanner tymor Chwefror wrth gynnig wythnos llawn dop o weithgareddau llawn lles. Roedd yr wythnos yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer ystod eang o oedronau.

Ar ddydd Sadwrn y 5ed o Fawrth cynhaliwyd Sioe Barti Ddu gan gwmni Mewn Cymeriad yn Neuadd Bancycelin, gyda'r digwyddiad yn llawn a'r neuadd dan i sang. Hoffem ddiolch am y cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gâr ar gyfer y digwyddiadau yma a gynhaliwyd am ddim wrth ddathlu #gaeaflawnlles.

Sesiynau stori:

Rydym yn ail-gychwyn sesiynau stori mewn tair ardal. Yn San Clêr ar ddydd Mercher yn Y Gât ar yr 2il, 9fed, 16eg, 23ain a 30ain o Fawrth a 6ed o Ebrill. Mae'n angenrheidiol i bawb gofrestru o flaen llaw. Cysylltwch gyda gwawr@mgsg.cymru i gofrestru.

Sbri Sadwrn, Llanboidy:

Cynhaliwyd sesiwn 'Sbri Sadwrn' ar y 19eg o Fawrth rhwng 11-12pm yn Neuadd y Farchnad, Llanboidy.

Parti'r Tywysogesau:

Rydym yn edrych ymlaen at ymweld â Neuadd Goffa Lacharn, SA33 4QG ar y 21ain o Ebrill i gynnal Parti Tywysogesau gyda PS Parties o 10-11.30yb. Bydd y sesiwn yn cynnwys gweithgaredd crefft a sioe gan dywysogesau enwog. £2 y plentyn. Nifer cyfyngedig, i gofrestru cysylltwch gyda ceris@mgsg.cymru.

Gweithdy cyfareddwr 'fascinator':

Am y tro cyntaf erioed, bydd y Fenter yn cynnal gweithdy creu addurn pen 'fascinator' ar y 30ain o Ebrill am 10yb, yn y Gât, San Clêr. Cost y gweithdy bydd £25 y person. Niferoedd cyfyngedig. Cysylltwch gyda ceris@mgsg.cymru i gofrestru.

Cyfryngau Cymdeithasol:

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y Fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Trydar - @MenterGSG

Instagram - @MenterGSG

E-bost - ceris@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch gyda Ceris ar y ffôn: 07939 962042.



**ARBENIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**

MOT

•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siŵr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

**•RHANNAU SPÂR •GWASANAETH •TEIARS
•BATRIS •WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN
•TYMHERU AER**

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



George's
o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



**Pysgod - Sglodion - Risols
Selsig - Cyw lân - Diodydd**

**Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 20.30**
**Croeso i chi archebu
ar y ffôn
01994 231482**
**Heol yr Orsaf,
San Clêr**



GŴYL FEL 'NA MAI CRYMYCH 2022

Ddwy flynedd yn ôl roedd trefniadau cynnal gŵyl gerddorol newydd sbon yng Nghrymymch yn ei anterth ond fel popeth arall daeth Covid-19 i darfu ar ein cynlluniau. Yn dilyn y siom o fethu cynnal yr Ŵyl yn 2021 hefyd, rydym nawr yn hyderus y gallwn gynnal yr Ŵyl eleni. Ar ddydd Sadwrn, 7fed Mai y bwriad yw gweld Parc Gwynfryn, trwy garedigrwydd Matthew Parry, yn fwrlwm o gerddoriaeth byw Cymraeg wrth i'r ardal groesawu pobl o bob oed o bedwar ban i'r Ŵyl Gerddorol Cymraeg gyntaf yng ngodre'r Frenni Fawr.

Plannwyd yr hedyn gan aelodau o Gôr Clwb Rygbi Crymymch yn ystod eu hymwelid â Gŵyl Gerddorol Cei Newydd rai blynyddoedd yn ôl gan fwriadu cynnal gŵyl fechan yng Ngardd Gwrw'r Clwb Rygbi ond wrth i drafodaethau ddatblygu esblygodd y syniad ymhellach a phenderfynwyd mynd amdani! Ffurfiwyd pwyllgor gweithredol gan rai o aelodau'r côr ynghyd â Menter Iaith Sir Benfro, unigolion profiadol yn y maes hwn a ieuencid lleol.

Mae Gŵyl Fel 'Na Mai bellach yn Gwmni Cyfyngedig ac edrychwn ymlaen at y cyffro wrth groesawu artistiaid a fydd, gobeithio, at ddant pawb. Bydd dau lwyfan sef Llwyfan Y Frenni Fawr a Llwyfan Foel Drigarn a bydd y lein-yp yn cynnwys Mei Gwynedd a'r Band, Los Blancos, Bwncath, Einir Dafydd, Dafydd Pantrod a'r Band ac ambell syrpreis arall! Edrychwn ymlaen hefyd at groesawu Dafydd Iwan sydd eleni yn dathlu trigain mlynedd o berfformio. Un o amcanion gwreiddiol yr Ŵyl oedd rhoi cyfle i dalentau lleol berfformio a bydd y rhain yn cynnwys **Ysgol Bro Preseli – a fydd newydd ei ffurfio**, Côr Dysgu Cymraeg Sir Benfro, Côr Clwb Rygbi Crymymch, Erin Byrne a Manon Elster-Jones.

Ychydig feddylodd yr un ohonom pan ddechreuwyd ar y trefniadau gwreiddiol y byddem wedi colli un o'n bandiau mwyaf poblogaidd yn dilyn marwolaeth drist y brodyr Richard a Wyn Jones. Byddai Ail Symudiad wedi bod yn un o uchafbwyntiau'r Ŵyl yn 2020 a gobeithiwn fedru talu teyrnged haeddiannol iddynt yn ystod y dydd. Bydd yr Ŵyl yn cychwyn yn y prynhawn ac yn parhau tan yr hwyr, gyda'r nod o fod yn Ŵyl holl gynhwysfawr ac yn Ŵyl i'r teulu cyfan sy'n cynnwys gweithgareddau i blant o bob oed a digon o gyfleusterau parcio.

Un o fois y pentre' sef Gareth Delve fydd MC yr Ŵyl a bydd darpariaethau ar gyfer pawb yn cynnwys bar a bydd bwydydd amrywiol gan fusnesau lleol ar werth. Am fwy o fanylion ac i archebu tocynnau ewch i felnamai.co.uk.

Cofiwch am ein cynnig arbennig – y cyntaf i'r felin i gael gostyngiad **cyn 1af Ebrill**

Peidiwch bod yn ffwl a cholli mas!!



YSGOL GRIFFITH JONES

Dydd Gŵyl Dewi



Roedd yr ysgol yn fôr o goch ar ddiwrnod Gŵyl Ddewi gyda'r plant yn eu crysau coch a'u gwisgoedd traddodiadol. Cafodd pawb fasnied o gawl i ginio. Trefnwyd gweithgareddau i ddathlu traddodiadau Cymru ym mhob dosbarth gan gynnwys sesiynau coginio pice ar y maen, gweithdai cloccio a dawnio gwerin, ac ymchwilio i fywyd a gwaith Dewi Sant.

Diwrnod y Llyfr



Dathlwyd Diwrnod y Llyfr eleni ar Fawrth y 3ydd, gwisgodd pawb fel hoff gymeriad o lyfr Cymraeg. Bu pob dosbarth yn cynnal gweithgareddau ynghlwm â darllen yn ystod y dydd gan gynnwys cynllunio llyfr nodau ac ysgrifennu adolygiadau o hoff lyfrau. Cymerodd Dosbarth Pwyll ran mewn darllediad byw gydag awduron rhai o lyfrau 'Diwrnod y Llyfr' eleni gan gynnwys Michael Morpurgo.

Cogurdd



Bu aelodau'r Urdd o ddosbarthiadau Pwyll a Myrddin yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cogurdd. Cebab ffrwythau gyda dip naturiol oedd ar y fwydlen eleni. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt am ymdrech arbennig. Bydd Grace Thomas, Llyr Davies, Non Thomas ac Ollie Sturnham yn mynd ymlaen i goginio eto yn Rownd 2 yn yr ysgol.

Masnach Deg

Cafwyd diwrnod llawn o weithgareddau Masnach Deg a drefnwyd gan y Pwyllgor. Bu helpa fananas yn y Cyfnod Sylfaen tra bu'r Adran Iau yn cyflawni helpa drysor i chwilio cliwiau i ddatrys cyfres o broblemau Masnach Deg. Yn ogystal bu llawer o weithgareddau hwylus ym mhob dosbarth gan gynnwys dilyn taith y fanana ar draws y byd a lleoli nwyddau Masnach Deg ar fap o'r byd.

Ymwelwyr



Croesawyd cwmni theatr 'Mewn Cymeriad' i'r ysgol i roi perfformiad i Ddosbarthiadau Pwyll a Myrddin o 'Taith y Mimosa'. Roedd yn rhan o waith thema'r dosbarthiadau wrth gymharu Cymru a Phatagonia.

Daeth cwmni 'Bible Explorer' i'r ysgol i gynnal gweithdai gyda dosbarthiadau Myrddin ac Hywel.

Lles

Fel rhan o Wythnos Ryngwladol Iechyd Meddwl Plant cafodd y disgyblion gyfle i wisgo gwisg eu hunain am y diwrnod er mwyn cyfleu eu hunaniaeth. Trefnodd y Pwyllgor Ysgolion Iach weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o bwysgirwydd meddwl iach.

Diwrnod Diogelwch ar Lein

I nodi Diwrnod Diogelwch ar Lein cynhaliwyd gwasanaethau a gweithgareddau ar y thema 'Chwarae'n gyfrifol ar lein'. Y neges oedd pwysigrwydd creu rhyngrwyd mwy diogel a chodi ymwybyddiaeth y plant o'r peryglon posib.

YSGOL BRO BRYNACH

Ar ddiwedd yr hanner tymor, caewyd yr ysgol diwrnod yn gynnar oherwydd storm Eunice. Buon ni'n lwcus iawn bod ddim llawer o ddifrod yn yr ysgol.

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi



Cafwyd wythnos brysur iawn ar ddechrau'r mis gyda'r ysgol yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Gwisgodd y disgyblion wisgoedd traddodiadol Cymreig ac roeddent yn edrych yn fendigedig. Buodd digysblion y Cyfnod Sylfaen yn dawnsio gwerin a phawb yn coginio pice ar y maen.

Yn ystod yr wythnos buodd y disgyblion yn coginio pancos, gan flasu gwahanol bethau arnyh nhw.

Diwrnod y Llyfr



Ar ddydd Iau y 3ydd o Fawrth roedd yr ysgol yn lliwgar iawn gyda'r plant wedi gwisgo i fyny fel hoff gymeriad o lyfr. Cafwyd cystadleuaeth ar gyfer y wisg orau ymhob dosbarth, llongyfarchiadau i Lucy, James, Poppy D a Noah a da iawn i bawb arall.

Stwnsh Sadwrn



Ymddangosodd pedair o ferched blwyddyn 6 sef Greta, Ruby, Ella a Jessica ar y raglen Stwnsh Sadwrn. Cafwyd llawer o hwyl yn ateb cwestiynau ond yn anffodus roedd yn rhaid i Ella a Jessica cael pei yn y wyneb.



Cyw



Ar ddydd Mercher, 9fed o Fawrth daeth Huw o Cyw i ddarllen stori i ddosbarth Lliwe. Mwynheodd y plant y profiad a byddant ar y rhaglen cyn hir.

YSGOL BANCYFELIN

Dathliadau'r Ysgol yn 150

Mae Ysgol Bancyfelin yn 150 oed eleni. Byddwn yn cynnal diwrnod o ddathlu dydd Sadwrn, Ebrill 30ain. Bydd diwrnod agored yn yr ysgol o 10-4 ac yna cynhelir noson gymdeithasol yn y Neuadd yn y nos. Cadwch lygad ar dudalen Facebook, Pobl Bancyfelin a Ffederasiwn Ysgolion Bancyfelin, Llangain a Llansteffan am fwy o fanylion yn y Cardi Bach mis nesaf.

Dydd Gŵyl Dewi

Bu diwrnod cyfan o ddathliadau yn Ysgol Bancyfelin ar Ddydd Gŵyl Dewi, wedi ei drefnu gan y Cyngor Cymraeg. Roedd pawb wedi gwisgo yn eu wisgoedd traddodiadol a'u crysau rygbi a phêl-droed.

Cafwyd cawl blasus a phice ar y maen i ginio. Yn ystod y prynhawn bu yna gystadlu brwd mewn Ei-steddfod, ac roedd pawb yn falch iawn i groesawu NESTA'n ôl i'r ysgol i feirniadu. Diwrnod i'w gofio!



Dydd Gŵyl Dewi



Nesta yn brysur yn beirniadu yn yr Eisteddfod

Diwrnod y Llyfr



Am yr eildro yn yr wythnos roedd Ysgol Bancyfelin yn fôr o liw dydd Iau, Mawrth 3ydd, gyda phawb yn eu gwisgoedd Diwrnod y Llyfr a oedd yn amrywio o Harry Potter, i Fantastic Mr Fox, i Willy Wonka, i'r tri Mochyn bach, i Dai Jones Llanilar. Cynhaliwyd diwrnod cyfan o weithgareddau darllen ac roedd pawb wrth eu bodd.

YSGOL BECA

CogUrdd



Cafodd disgyblion blwyddyn 4,5 a 6 y cyfle i gymryd rhan yng nghystadlaeth CogUrdd yr Eisteddfod. Buodd y disgyblion yn paratoi cebabs ffrwythau gyda saws iogwrt. Llongyfarchiadau i

Cai Lewis Bl.6, bydd yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf.

THOMAS CAERSELI



THOMAS ENGINEERING
PEIRIANNWYR AMAETHYDDOL
ARBENIGO MEWN TREILARS
Caerseli
Clunderwen
Ffôn: 01437 563226

PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd

GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERTIO



Y Gweithdy
Llwynycelyn
Clunderwen
SA66 7HL



01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

DENNIS JONES
A'I DEULU

SAER COED
PEINTIWR AC ADDURNWR
TREFNWR ANGLADDAU

Maesawelon
Efailwen
Ffôn: 01994 419561
Symudol: 07817 650858




Llwyddiannau'r Eisteddfod Gylch

Ynghyd â'r gystadleuaeth CogUrdd buodd nifer o'r disgyblion yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn ddiweddar. Buodd unigolion o bob blwyddyn yn cymryd rhan ac yn rhannu eu talentau. Llongyfarchiadau i Medi Wheeler am ddod yn ail ac i Carys Phillips am ddod yn drydydd yn yr Unawd Bl. 3 a 4. Llongyfarchiadau i Ffion Phillips am ddod yn ail yn yr Unawd Bl. 5 a 6. Llongyfarchiadau i Celt Booth-Coates am ddod yn ail yn y Llefaru Unigol Bl.2 ac iau. Llongyfarchiadau i Anwen Watson am ddod yn ail ac i Ffion Phillips am ddod yn drydydd yn y Llefaru Unigol Bl. 5 a 6.

Diwrnod y Llyfr



Roedd hi'n ddiwrnod y llyfr ar ddydd Iau y 3ydd o Fawrth, ac yn wir cafwyd gwledd o gymeriadau digri yn ein hysgol! Da iawn chi blant am eich ymdrechion arbennig eleni. Yr enillwyr eleni a dderbyniodd taleb llyfrau oedd Ben, Katie ac Arianna.

Dydd Gŵyl Dewi



Ar Fawrth y cyntaf, dathlom Ddydd Gŵyl Dewi fel ysgol. Braf oedd gweld y disgyblion yn eu gwisgoedd traddodiadol. Cafom ddiwrnod hyfryd yn dathlu ein nawddsant gydag amrywiaeth o dasgau hwylus ym mhob dosbarth.

YSGOL ARBERTH

O'r diwedd mae bywyd ysgol yn dechrau agor i fyny yn dilyn gymaint o gyfyngiadau Covid.

Dyma rhai llwyddiannau'r disgyblion:-

Nofio

Llongyfarchiadau i Phoebe Mason sydd wedi cael ei derbyn i nofio gyda'r 'Seal Squad' yn Hwlfordd.

Criced

Canlyniadau gwyh i Isaac Jenkins ac Oliver Johns am gael eu dewis i hyfforddi gyda Thîm Criced Gorllewin Cymru o dan 10 mlwydd oed.

Pêl Droed

Llongyfarchiadau i Rhys Thomas sydd wedi ennill cystadleuaeth gyda Chlwb Pêl Droed Abertawe i greu ffeil ffeithiau am ei hoff chwaraewr. Cafodd Rhys y 3ydd wobwr yng Nghystadleuaeth 'Lypsync' Sir Benfro yn canu yn erbyn un o ganeuon ei arwr - y Welsh Whisperer.

Gymnasteg

Llongyfarchiadau i Ava Davies a ddaeth yn 3ydd mewn cystadleuaeth Gymnasteg yn ddiweddar. Rodd Ava yn cystadlu mewn cystadleuaeth rhanbarthol yn Wiltshire. Bydd hi'n cystadlu eto mewn 5 wythnos. Mae dyfodol disglair iawn o dy flaen Ava.

Eisteddfod Gylch yr Urdd

Da iawn i Tilly Plumb a ddaeth yn 3ydd yn yr Unawd a'r Llefaru Bl2 ac iau yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn ddiweddar.

MASON BROS

GWASANAETH GWERTHU
PEIRIANNAU NEWYDD AC AIL-LAW

THE NORTON YARD,
LAMPETER VELFREY,
NARBERTH

Ffôn: 01834 831653 / 831553

Gerald Llewellyn a'i Fab

Peirianwyr Gwresogi
a Phlymwyr

Am y dewis gorau o ffynau i'r gegin
Nwy neu Olew

CELT • AGA • RAYBURN • SORN



Dryslwyn, Clunderwen

Ffôn: 01437 563589

Cwmni Adeiladu
BURNS
Building Co



Arbenigwyr mewn gwaith
GWYDR FFEIBR

Rob a Liz Burns
Greenwood
Cold Blow
Arberth

Cysylltwch a ni os am greu neu atgyweirio
TO GWASTAD neu HAFAN

Ffon: 01834 860686

Tîm Cwis Dim Clem



Daeth Tîm Cwis Dim Clem yr Ysgol yn fuddugol yn y ddwy rownd leol yn ddiweddar. Pob lwc iddynt yn y rownd nesaf yn cynrychioli'r Sir. Yn y llun mae Zio, Callum, Osian a Jacob. Gwaith da bois!

Sioe - Mewn Cymeriad



Gwnaeth disgyblion yr Ysgol Ganol ymgymryd â gweithgareddau Theatr yn ddiweddar gyda Sioe Mewn Cymeriad - Barti Ddu. Mae hyn yn rhan o'r 'Profiad Dysgu' y tymor hwn yn edrych ar waith Jemeima Niclas.

Diddanu ymwelwyr Bluestone



Cafodd yr Ysgol wahoddiad i ddiddanu ymwelwyr i'r Parc ar ddydd Gŵyl Dewi eleni. Daeth dosbarth Mrs Lloyd ynghyd i drefnu rhaglen o tua 20 munud yn canu a dawnsio i ddathlu Cymraeg a Chymreictod.

Cyn hir...

Fe fyddwn yn croesawu'r Welsh Whisperer i'r Ysgol i gynnal sesiynau cyfansoddi gyda'r disgyblion ar y 31ain o Fawrth.

Byddwn yn cynnal Ras Pili Pala Pinc er cof am Beca Mai Richards ar y 1af o Ebrill, yn codi arian tuag at '2 Wish' a 'Ambiwlans Awyr Cymru'.

YSGOL BRYNCONIN

Cogurdd!

Ar Ddydd Gwener yr 11eg o Chwefror, cynhaliwyd cystadleuaeth Cogurdd yn yr ysgol. Da iawn i bawb oedd wedi cymryd rhan, a llongyfarchiadau i Kieran am ennill y wobr gyntaf. Roedd y cebab ffrwythau yn edrych yn flasu iawn. Pob lwc yn y rownd nesa! Diolch i Mr Rhidian Evans am feirniadu.

gan Owen

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Dathlodd disgyblion Ysgol Brynconin Dydd Gŵyl Dewi drwy wisgo coch neu wisg draddodiadol Gymreig. Mwynhaodd pawb wneud gweithgareddau hwylus a gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg yn eu dosbarthiadau. Roedd Dosbarth Emrallt wedi paratoi cawl blasus ac roedd Dosbarth Rhuddem a Diemwnt wedi dysgu am y pethau pwysig o ran gofalu am ein gilydd - 'Gnwewch y Pethau Bychain'.

gan Peggy-Anne

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelfre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Trefigin Oil
est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD Tŷ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
teuluol, lleol, Cymraeg
881630 www.trefigin.cymru 881282



Dathlu Diwrnod y Llyfr

Roedd hi'n braf gweld pawb yn eu gwisgoedd amrywiol ar ddiwrnod y llyfr. Roedd pawb wedi mwynhau gweithgareddau yn eu dosbarthiadau i ddathlu y diwrnod. Cafwyd cyfle i wrando ar storïau a chwarae fel cymeriadau llyfrau.

gan Gracie

Eisteddfod Ysgol



Cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol ar Ddydd Mercher, yr ail o Fawrth. Da iawn i bawb am gymryd rhan yn y cystadlaethau llwyfan a'r cystadlaethau gwaith cartref. Diolch yn fawr i Mrs Glesni Vaughan am feirniadu. Llongyfarchiadau i bawb oedd wedi llwyddo i cipio y wobr gyntaf, ail a thrydydd ond da iawn yn arbenig i Cynan Makepeace am fod yr unigolyn i ennill y mwyaf o bwyntiau, i Rhys Morgan am ennill y gadair, i Catrin Evans am ennill y goron ac i Dŷ Bronfraith am ennill y mwyaf o bwyntiau yn Eisteddfod Brynconin 2022. Braf oedd cael cystadlu unwaith eto!

gan Gracie

Eisteddfod Cylch Clunderwen

Da iawn Peggy-Anne, Deri, Cynan, Luca, Poppy, Ffion, Ash, Heti ac Evelyn am gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn Neuadd Maenclochog ar Ddydd Llun y 7fed o Fawrth. Llongyfarchiadau enfawr i Heti am ddod yn ail yn yr unawd, i Deri am ddod yn ail yn y llefaru ac i Luca ac Evelyn am ddod yn gyntaf yn y llefaru i ddysgwyr. Da iawn chi, a phob lwc i chi yn Eisteddfod Sir.

gan Owen

H THOMAS a'i FAB

Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law

Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion

TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr

Siop Radio a Theledu
CRYMYCH

Setiau ar werth

Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

MASNACHWYR ADEILADU
DAVIES

Cyflenwyr Adeiladu a D.I.Y.

Arddangosfa Ceginau
ac Ystafelloedd Ymolchi
ar agor



Heol yr Orsaf
Hendygwyn

Ffôn:
01994 240228



Bysiau Cwm Taf

Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol



DYDDIAD	TEITHIAU 2022	PRIS	DIWRNODAU
Iau 7 - 11 Ebrill	CAEAU BLODAU'R ISELDIROEDD	£495	5 Diwrnod
Gwener 8 - 11 Ebrill	PENWYTHNOS I Ymlacio yn DULYN	£345	4 Diwrnod
Gwener 22 - 25 Ebrill	PENWYTHNOS YN GWESTY BELGRAVE SANDS TORQUAY	£299	4 Diwrnod
Llun 25 -29 Ebrill	RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU	£450	5 Diwrnod
Llun 2 - 6 Mai	Mordaith llong ar Gamlas LERPWL a MAENCEINION	£465	5 Diwrnod
Gwener 6 - 8 Mai	CRWYDRO TAFARNDAI WETHERSPOONS	£195	3 Ddiwrnod
Gwener 13 - 16 Mai	PENWYTHNOS Braf YN GWESTY PALACE PAIGNTON	£300	4 Diwrnod
Sadwrn 14 - 20 Mai	CRWYDRO O AMGYLCH YNYS HARDD JERSEY	£660	7 Diwrnod
Mawrth 17 - 19 Mai	MEN & MOTORS 1V	£265	3 Diwrnod
Sul 22 - 25 Mai	PUDDING CLUB (Noson blasu pwдинаu) & COTSWOLDS	£345	4 Diwrnod
Iau 26 - 28 Mai	SIOE FLODAU CHELSEA	£299	3 Diwrnod
Llun 30 Mai - 2 Mehef	LLANDUDNO - Croeso Twymgalon Gwesty'r Tynedale	£370	4 Diwrnod
Sul 5 - 10 Mehefin	IWERDDON - KERRY	£600	6 Diwrnod
Llun 6 - 9 Mehefin	DARGANFOD GERDDI DORSET	£360	4 Diwrnod
Llun 13 - 17 Mehefin	Ales and Haunted Tales of LANCASHIRE	£435	5 Diwrnod
Mawrth 21-28 Mehefin	YNYS Hudolus ORKNEY a Chastell MEY CAITHNESS yr ALBAN	£900	8 Diwrnod
Sul 26 Mehef - 2 Gorff	Ymweliad a RHEILFFYRDD "BLUEBELL" EASTBOURNE	£535	7 Diwrnod
Iau 7 - 9 Gorffennaf	GOODWOOD FESTIVAL OF SPEED	£320	3 Diwrnod
Iau 14 - 16 Gorff	The Royal International Air Tattoo	£290	3 Diwrnod
Gwener 15 - 20 Gorff	YNYS WYTH (ISLE OF WIGHT)	£415	5 Diwrnod
Sul 24 -25 Gorff	LEGOLAND (WINDSOR)	i/g	2 Diwrnod
Llun 25 - 29 Gorff	HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES	£450	5 Diwrnod
Sul 31 Gorff - 4 Awst	Charming Cheshire & The Wirral Peninsula	£435	5 Ddiwrnod
Sul 7 - 12 Awst	LOCHS a DYFRFFYRDD yr ALBAN	£535	6 Diwrnod
Gwener 12 - 15 Awst	ILFRACOMBE	£340	4 Diwrnod
Sad 20-27 Awst	St ANTON, AWSTRIA	£815	8 Diwrnod
Mer 24 - 27 Awst	SIOE AGER a Hên Beiriannau DORSET, Bournemouth	£340	4 Diwrnod
Sul 4 - 8 Medi	NORMANDY Cyfle i ymweld a mynwentydd y rhai a gollwyd	£595	5 Diwrnod
Llun 5 - 9 Medi	CYMRU a'r GORORAU	£450	5 Diwrnod
Llun 12 - 16 Medi	Norfolk Broads, Steam, Cruise and Sandringham	£495	5 Diwrnod
Gwe 16 - 19 Medi	PENWYTHNOS HIR o YMLACIO yn EFROG	£310	4 Diwrnod

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni
01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

PREN DA

Gwaith coed o bob math

Dafydd Makepeace

Fferm y Cross

Llandysilio

Clunderwen

Ffôn: 07967 220289

DERI PAGE
CIGYDD



Cig o'r ansawdd gorau

Heol y Pentre
San Clêr

Ffôn: 01994 230062

Diolch am eich cefnogaeth



CONTRACTWYR ADEILADU
Gwasanaeth Cyflawn

Wernddu
Stryd y Brenin Edward
Hendygywn ar Daf
SA34 0AA

Ffôn: 01994 240534
Symudol: 07966 411443

PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus i Letti Alys Evans, Llyswen, Login oedd yn 5 oed ar y 5ed o Chwefror, a Dyfed Celt Evans fydd yn 7 oed ar y 26ain o Fawrth.



Penblwydd hapus i Sara Elena Jones. Blaenau, Rhydaman a fydd yn 4 oed ar 25ain o Ebrill. Cariad mawr Dad, Mami, Gwenno, Tadcu a Mamgu Bancyfelin a'r teulu i gyd.



Penblwydd Hapus i Harriet James o Benybont ar Ogwr a oedd yn dathlu ei phenblwydd cyntaf ar Fawrth 19eg. Llawer o gariad oddiwrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn, Pwll Trap), Anti Iona ac Wncwl Ceri



Penblwydd Hapus Gruffudd Llewelyn Rooke yn 6 oed ar Chwefror 20fed. Cariad Mawr Mami, Dadi, Gwilym Huw, Mamgu a Dadcu Waunfach a Grandma a Grandad Ffairfach a'r teulu i gyd.

O ddiddordeb gobeithio!!

Wrth sylwi ar fy enw y dydd o'r blaen, synnais o weld cymaint o Gymry enwog sydd yn berchen yr un lythyren sydd ar y dechrau yn eu henwau cyntaf ac hefyd ei cyfenwau.

Dyma ddeg arall ohonynt

Becky Brewerton	Golff
Donald Davies	Gwyddonydd
Edgar Evans	Anturiwr
Emrys Evans	Awdur
Evan Evans	Bardd
Jamie Jones	Snwcer
James Jones	Cyn-Archdderwydd
Shakin' Stevens	Canwr Pop
Talfryn Thomas	Actor
Wilfred Wooller	Cricedwr

John Arfon

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr



ARBENIGWYR MEWN PWMPYS FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŌR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD

Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693

e.bost:
enquiries@allpump.co.uk



NEW HOUSE GARAGE



Atgyweirio a M.O.T.

Ffôn: 01994 230041

Emrys ac Ann Murrow

**Motel Nantyffin
Llandissilio**



Bwyty • Neuadd Wleda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau



Croeso cwrtais bob amser

Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

**Celia Vlismas
OPTEGYDD**

**Croeso i
gleifion GIG!**

Profion golwg GIG ar gael
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG

Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk



**PHIL & SIÔN HARRIES
SEIRI COED**

**EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED**



FFÔN:-
01994 240857



Clwb Rhedeg TROTS, San Cler - *Canlyniadau*

Ras Calan / Ras Aeaf 10 milltir / Llandeilo Sul, 27ain Chwefror 2022

	Amser	Safle
Ben Hutchison	1:07:15	4
Luke Evans	1:10:48	6
Vincent Bailey	1:19:39	25
Julian Lewis	1:23:22	36
Joanne Bowes	1:28:47	48
Emma Jones	1:28:51	49
Keith Powell	1:39:42	71
Margaret Powell	1:56:22	89
Pauline Thomas	2:18:59	99
Jayne Evans	2:18:59	100

Ras Aberhonddu i Gaerdydd Sul, 20fed Chwefror 2022

	Amser	Safle
Nerys Jones	6:45:40	15

Traws gwlad Cynghair Gwent / Bryste Sadwrn, 19eg Chwefror 2022

	Amser	Safle
Bechgyn Nofis		
Lewis Thomas-Wigley	07:56	25
Merched Nofis	Amser	Safle
Manon Phillips	07:34	10
Maisie Foster	07:48	13
Dynion hŷn	Amser	Safle
Luke Evans	39:43	117
Richard Phillips	42:39	178
Deian Phillips	51:50	295
Menywod hŷn	Amser	Safle
Mel Holliday	34:12	63
Kate Lynock	36:41	115
Margaret Powell	48:38	209
Pauline Thomas	59:20	231
Meistri dynion 65	Amser	Safle
Keith Powell	43:09	19



Login
Hendygywyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk

Teithiau o Safon
Quality Coach Travel



Nifer y dyddiau			Nifer y dyddiau		
Ebrill			Awst		
Llun 4	Efrog - 'A Ramble in the Shambles'	5	Llun 1, Mer 3 a Gwe 5	Eisteddfod Genedlaethol	1
Maw 26	<i>Lord of the Dance 25, Theatre Newydd, Caerdydd</i>	1	Maw 30	Gwibdaith Dirgel	1
Sad 30	<i>Strictly Come Dancing - Y Dawnsywyr Proffesiynol</i>	1	Medi		
Mai			Llun 5	Ardal y Llynnoedd	5
Sad 7	<i>Sioe Gerdd - Six The Musical, CMC</i>	1	Llun 12	Eastbourne	5
Sad 7	Saffari Siocled	2	Sad 17	Gwyl Fwyd y Fenni	1
Llun 9	Iwerddon - Sligo a'r 'Wild Atlantic Way'	6	Maw 20	Cerddoriaeth Bond - Neuadd Brenhinol Albert	2
Llun 16	Lock, Stock a'r BBC	5	Gwe 23	Feast Your Pork Pies on Melton Mowbray	5
Sad 21	<i>Sioe Gerdd - School of Rock, CMC</i>	1	Hydref		
Llun 23	Gwesty Warner - Neuadd Alvaston	5	Llun 3	Iwerddon - Kerry a Dingle	6
Iau 26, Gwe 27 a Sad 28	<i>Ed Sheeran, Stadiwm Principality</i>	1	Gwe 14	Stratford-upon-Avon	4
Sad 28	<i>Sioe Gerdd - Singin' in the Rain, CMC</i>	1	Sad 15	<i>Sioe Gerdd - South Pacific, CMC</i>	1
Mehefin			Sad 29	<i>Sir Bryn Terfel - Songs & Arias, NDS</i>	1
Gwe 10	Caerfaddon a Briste	4	Tachwedd		
Mer 15	Diwrnod y Merched - Royal Ascot	3	Gwe 4	Riviera Lloegr - Twrci a Tinsel, Paignton	4
Sad 18	Gwibdaith Sir Benfro	1	Sad 5	<i>Sioe Gerdd - Sister Act, CMC</i>	1
Sad 25	Yr Alban - Dumfries a Galloway	7	Gwe 11	Gwesty Warner - Littlecote Swydd Berkshire	4
Gorffennaf			Sad 19	Nadolig ar y Coblau (Coronation Street)	2
Sad 9	<i>Sioe Gerdd - Y Lion King, CMC</i>	1	Gwe 25	Ffair Nadolig Gwesty'r Metropole, Llandrindod	3
Llun 11	'From a Lofty Height to the Isle of Wight'	5	Sad 26	Gwyl Olau Longleat	2
Maw 19 a Mer 20	<i>Sioe Frenhinol Cymru</i>	1	Rhagfyr		
Iau 21	Llandudno	5	Sad 3	Llwybr Goleuadau Palas Blenheim	2
Iau 28	Castell Highclere (Abaty Donwnton)	2			

Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!

Clwb Rygbi Hendygywyn

Dynion

Does dim llawer o gemau wedi bod yn mis Chwefror oherwydd cyfuniad o gemau rhyngwladol a Covid.

Dyma'r canlyniadau :-

Chwefror 19eg - Gohiriwyd y gêm gan fod Covid gyda tîm Felinfoel

Chwefror 25ain - Gêm Gwpan Sir Benfro yn erbyn Abergwaun. Enillodd Hendy Gwyn 11-9 ond dyma beth oedd gem galed tu hwnt - typical gem gwpan! Wen ni bron a colli, onibai am dacl enfawr Ben Taylor, capten y tîm ieuenctid oedd yn chwarae ei gêm gynta i'r tîm cyntaf. Roedd yn chware ar yr asgell, yn hytrach nag yn yr ail reng, ei safle arferol. Rhedodd o'r chwith i'r dde i daclo asgellwr ifanc Abergawun ym munud ola'r gêm. Diolch byth aeth y chwiban olaf yn syth wedi'r dacl yma!! Ollie Hughes cafodd gais Hendy Gwyn a llwyddodd Geraint Jones gyda dwy gic gosb.

Mawrth 5ed - Gohiriwyd y gêm yn erbyn Crwydriaid Llanelli gan fod Covid gyda tîm Hendy Gwyn

Menywod

Dim gemau o gwbl yn mis Chwefror.

Merched

Dechreuodd tymor y merched ar Chwefror 6ed pan buom yn chwarae adref yn erbyn Ynysddu. Enillodd Hendy Gwyn 108 - 0, a do, gwnaethoch ddarllen y sgor yn iawn! Chwarae teg i Ynysddu, fe wnaethant deithio lawr gyda dim ond 12 chwaraewr a cael chwalad, ond pob clod iddynt am gadw i chware tan y funud olaf.

Pump cais i Marged Williams, pedwar cais i Pearl Van

Joy Ellis, dau gais i Macey Bowen a cais yr un i Danielle Lawrence, Ceulyn Davies, Natalie Walsh, Bethany Williams, Nicole Davies, Mollie James a Kelsey Haycocks. Llwyddodd Macey Bowen gyda 6 troiad a cafodd Megan Lloyd Davies 3 troiad.

Dan 9

Chwefror

6ed: Hendy Gwyn 6 - Abergwaun 5 (Chwaraewr y gem – William Jones)

13eg: Dim gem

20fed: Dim gem

27ain: Hendy Gwyn 11 - Talacharn 2 (Chwaraewr y gem – Amelia Thomas)

Mawrth 6ed: Gleision Hwlfordd 1 - Hendy Gwyn 2 (Chwaraewr y gem - Carys Phillips)

Eryrod Hwlfordd 2 - Hendy Gwyn 2

Talacharn 2 - Hendy Gwyn 5

Dan 8

Ionawr

16eg: Hendy Gwyn 19 Arberth 12

31ain: Penfro 7 Hendy Gwyn 4

Minis

Ionawr

30ain: Penfro 10 Hendy Gwyn 10

Doc Penfro 12 - Hendy Gwyn 12 Chwaraewr y gem – Diano Polino)

Chwefror

27ain: Hendy Gwyn 18 San Cler 18 (Chwaraewr y gêm - Harri Court)

Mawrth. 6ed: Gemau adref yn erbyn San Cler ac Abergwaun (Chwaraewr y gêm - James Davies)

Clwb Pêl-droed Llanboidy

Does ddim llawer iawn o bêl-droed wedi ei chwarae dros y mis diwethaf - gyda'r tywydd yn gohirio sawl gem i dimoedd Llanboidy.

Tîm cyntaf

Dim ond un gêm mae'r tîm cyntaf wedi chwarae ers dechrau mis Chwefror a hynny yn erbyn tîm cryf Crannog. Yn anffodus colli oedd hanes y tîm, a hynny o 3 gol i 1 gyda'r unig gol yn dod i Emyr Lewis.

Ar ôl 15 gem gynghair, mae'r tîm cyntaf yn yr 2ail safle, pwynt tu ôl i Landudoch. Mae'r tîm cyntaf hefyd yn edrych ymlaen at chwarae mewn dwy gêm gynderfynol yng nghwpan y gynghair yn erbyn Llandudoch a chwpan goffa Dai Dynamo hefyd yn erbyn Llandudoch.



Ail Dîm

Dwy gêm mae'r ail dîm hefyd wedi chwarae ers dechrau mis Chwefror gan ennill un a cholli un. Enillwyd ei gem yn erbyn ail dîm Aberteifi o 3 gol i 2 gyda goliau yn dod i Ryan Pearce, Chris Bowen a Dion Morgan. Collwyd ei gem yng nghwpan "South Cards" o 2 gol i 1 gyda'r unig gol yn dod gan Chris Bowen y capten.

Mae'r ail dîm yn sefyll yn y 3ydd safle yn y tabl ar ôl chwarae 11 gem hyd yn hyn.

Diolch yn fawr iawn i holl noddwyr a chefnogwyr y Clwb am y flwyddyn - rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich cefnogaeth.

Am fwy o wybodaeth am pryd mae'n gemau - ewch ar wefan "Ceredigion League". Bydd croeso cynnes yn aros amdanoch lawr ar gae Cae Dandre bob amser.


CHWARAEON - Clwb Tynnu Rhaff Llanboidy

Yn sgîl cyfyngiadau'r Pandemig, bu Clwb Tynnu Rhaff Llanboidy yn segur am dros flwyddyn o amser. Ond, yn dilyn llacio'r rheolau, fe ailgydiodd aelodau'r Clwb yn eu sesiynau ymarfer nôl yn Ebrill 2021 yn y gobaith y byddai'r cystadlu'n ail ddechrau maes o law. Ar ôl cyfnod maith o 53 o flynyddoedd yn gysylltiedig â'r Clwb, roedd Dorian Phillips yr hyfforddwr wedi gwneud y penderfyniad anodd i ymddeol o'i rôl hyfforddi gan drosglwyddo'r awenau i Kevin Phillips sef yr hyfforddwr cynorthwyol ers pedair mlynedd. Mae Clwb Tynnu Rhaff Llanboidy yn hynod ddiochgar i Dorian am ei ymroddiad a'i holl waith caled dros y blynyddoedd ac yn ei longyfarch yn fawr ar dderbyn yr MBE am ei wasanaeth i fyd chwaraeon - Dorian yw'r person cyntaf i dderbyn yr anrhydedd yma am ei wasanaeth ym maes cystadlu tynnu rhaff.

Yn ogystal ag hyfforddwr newydd, bu'r Clwb yn ffodus i ddenu chwech aelod newydd, ifanc yn ystod y tymor llynedd. Roedd hyn yn sicr yn newyddion da i'r Clwb gan fod rhai o'r tynnwyr mwy profiadol wedi penderfynu rhoi'r gore i dynnu am y tro. Dechreuodd tymor y cystadlu ym mis Mehefin ac fe gymerodd y Clwb ran mewn cystadlaethau yn Cupid's Hill, Trecastell, Hermon a Llanboidy cyn teithio i gystadlaethau cenedlaethol Tynnu Rhaff Cymru yn y Gelli Gandryll ddechrau Awst. Roedd bois Llanboidy yn cystadlu yn y pum pwysau gwahanol i ddynion yn ogystal â'r tîm cymysg gyda Merched Hermon. Cafwyd diwrnod i'w gofio gyda'r bechgyn yn llwyddo i gipio'r medalau aur ym mhob un o'r pwysau ynghyd â chystadleuaeth y tîm cymysg. Roedd yr hyfforddwr newydd wrth ei fodd gyda pherfformiad y garfan gyfan wrth llwyddo i ail adrodd buddugoliaethau'r ddwy flynedd flaenorol. Ar ddiwedd y dydd, cyflwynwyd Tarian Coffa Cyril Phillips i Kevin am ennill y nifer uchaf o bwyntiau - diwrnod hynod o lwyddiannus felly a phob clod i'r tynnwyr ifanc am berfformio cystal. Mae aelodau'r Clwb bellach wedi ail ddechrau hyfforddi ar gyfer tymor 2022 a'r gobaith, wrth gwrs, yw ail adrodd llwyddiannau llynedd. Gyda Dorian wrth law i helpu a chynghori, dymunwn yn dda i Kevin a'r garfan gyfan - y tynnwyr ifanc a'r rhai llai ifanc! - am y tymor sydd i ddod. Pob lwc i Glwb Tynnu Rhaff Llanboidy eleni eto.

Ar hyn o bryd, mae'r bechgyn yn ymarfer yn neuadd clwb chwaraeon Llanboidy, bob nos Sul am 7.30 o'r gloch. Mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno gyda ni.

Dymuna papur bro y Cardi Bach bob llwyddiant i



Llun o garfan gyfan Llanboidy yn dathlu yng nghwmni Kevin Phillips a Dorian Phillips.



Bechgyn y tîm 560kg a berfformiodd yn wych er mwyn cipio'r medalau aur.



Y tîm cymysg buddugol yn cynnwys pedair o ferched Clwb Hermon.